

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 470 • Hydref 2016 • 50c

Cogydd Arbennig

Mae un o fechgyn Dyffryn Ogwen wedi gwneud enw iddo'i hun fel cogydd o safon ryngwladol ac mae'n paratoi prydau bwyd eithriadol o flasus yn ei dŷ bwyta moethus ar Benrhyn Gŵyr ger Abertawe. Saif Tŷ Bwyta Beach House ar fin y traeth yn Oxwich a bu'r cogydd, Hywel Griffith, mab Iorwerth a Marian Griffith, Ffordd Pant, Bethesda yn destun rhaglen ar S4C yn ddiweddar.

Cynnyrch lleol yn bwysig

Ar wefan y bwyty fe ddywed Hywel ei fod yn teimlo'n angerddol ynghylch defnyddio cynnyrch lleol ac mae o a'i dîm yn paratoi prydau bwyd trwy ddefnyddio medr, profiad a chreadigrwydd. Mae hefyd yn chwilio am y cyflenwyr bwyd gorau a mwyaf cyson yn lleol a thrwy Gymru benbaladr.

Yn y bwyty mae Hywel a'i dîm yn ceisio creu awyrgylch braf lle gellir ymlacio ac maen nhw'n ymdrechu bob amser i gynnig gwasanaeth o'r radd flaenaf

ynghyd â phroffesiynoldeb ymhob agwedd o'u gwaith.

Mae'r bwyty mewn man hynod o hardd gyda thywod melyn Bae Oxwich gerllaw a golygfeydd ysblennydd hyd y glannau ym Mhenrhyn Gŵyr. Bu sawl person adnabyddus yn bwyta yno eisoes.

Dysgu crefft yn lleol

Meddai Hywel, "Rydyn ni am i'n holl westeion deimlo'n hapus ynghylch eu profiad o fwyta yma ac er nad yw hynny'n hawdd bob tro byddwn yn gweithio'n galed i geisio sicrhau bod hynny'n digwydd."

Fel yr eglura'r wefan tyfodd Hywel i fyny ym Methesda ac er nad oedd yn mwynhau bod yn yr ysgol aeth yn ei flaen i Goleg Menai ac yno y daeth i'r afael â'i wir alwedigaeth mewn bywyd. Dechreuodd ddysgu ei grefft yn y coleg cyn mynd ymlaen i weithio yn Ngwesty moethus y Lanesborough yn Llundain. Wedi hynny aeth i weithio fel is-gogydd yng Ngwesty'r



Grosvenor yng Nghaer cyn dychwelyd i Gymru fel un o'r cogyddion yn Ynyshir ger Machynlleth. Enillodd Ynyshir dri rosét a Seren Michelin tra bu Hywel yno.

Daeth ei swydd gyntaf fel prif gogydd i'w ran yn Nhŷ Bwyta Longridge lle'r enillodd dri rosét yr AA ac fe gafodd ei swydd gyntaf fel prif gogydd yn nhafarn Freemasons yn Wiswell. Dyma'r unig dafarn/ bwyty yn y DU i gael sgôr o

7/10 yn y 'Good Food Guide'.

Dechreuodd weithio fel pen-cogydd yn y Beach House ddechrau'r haf hwn ac mae'r perchnogion sy'n ei gyflogi yn berchen ar ddau dŷ bwyta arall.

Mae'n braf gallu adrodd am lwyddiant un o fechgyn y fro hon mewn maes sydd efallai braidd yn anghyfarwydd i ni yma er ein bod i gyd yn hoff o fwynhau pryd o fwyd blasus wrth gwrs.

Ysgol Abercaseg



Plant Ysgol Abercaseg a dderbyniodd wobr arbennig yn ddiweddar” – gweler y stori ar dudalen 3.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

**NOS WENER
18 TACHWEDD**

6.00yh
yn Neuadd Ogwen
Seremoni'r Orsedd,
Cystadlaethau'r Corau
Unawdau Lleisiol
ac Offerynnol a
Chystadleuthau i
Ysgolion Uwchradd

**SADWRN
19 TACHWEDD**

10.00yb
yn Ysgol Dyffryn Ogwen
Gwledd o
Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns
Celf a Chrefft
DEWCH YN LLU

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Siân Esmor Rees
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Derfel Roberts.

Golygydd mis Tachwedd fydd
Ieuan Wyn,
Talgarreg, Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG.
01248 600297.
Eboost: cylch@tiscali.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 2 Tachwedd,
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 17 Tachwedd,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

- Londis, Bethesda
- Siop Ogwen, Bethesda
- Cig Ogwen, Bethesda
- Tesco Express, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

- 2016
Hydref
- 22 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
 - 24 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
 - 25 Cangen Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
 - 29 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol
Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
 - 29 Sêl Pen Bwrdd. Neuadd Ogwen
neu Llys Dafydd am 9.30.
- Tachwedd*
- 03 Sefydliad y Merched Carneddi. Cyf.
Blynnyddol a Swper Cynhaeaf.
Cefnfaes am 7.00.
 - 03 Cangen Plaid Lafur Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
 - 05 Bore Coffi Clwb Camera. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
 - 07 Merched y Wawr Tregarth. BLODZ.
Trefniannau Nadoligaidd, Festri
Shiloh am 7.30.
 - 10 Y Gymdeithas. Festri Jerusalem
am 7.00.
 - 12 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
 - 12 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y
Brenin. 10.00 – 12.00.
 - 14 Cymd. Hanes D. Ogwen. Naomi
Jones, Yr Ysgwrn. Festri Jerusalem
am 7.00.
 - 16 Cyfarfod Blynnyddol Llais Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
 - 17 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.
 - 18 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
 - 19 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn
Ogwen am 10.00yb.
 - 19 Bore Coffi Neuadd Talgai.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
 - 23 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
5.00 – 8.00.
 - 26 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
 - 26 Ffair Nadolig y Blaid Lafur.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.



Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Plaid Cymru

Ar 30 Medi bu nifer o aelodau'r gangen yn bresennol pan ail agorwyd swyddfa'r Blaid yn 70 Stryd Fawr, Bangor, wedi iddi fod ar gau ers diwedd 2015 yn dilyn tân a achosodd ddifrod ofnadwy i'r adeilad. Barn pawb oedd fod yr atgyweirio a'r gwelliannau yn ardderchog, ac yn addas iawn ar gyfer defnydd gan Siân Gwenllïan, A.C., a Hywel Williams, A.S.

Yn y llun gwelir y ddau aelod gydag Irfon Williams a'i wraig, Rebecca, o "Hawl i Fyw" yn agor y swyddfa yn swyddogol. Mae'r swyddfa nawr yn agored o Ddydd Llun i Gwener 9.00yb-5.00yh.



I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Gwobr Arbennig i Ysgol Abercaseg

Mae Ysgol Abercaseg wedi derbyn y wobwr uchaf bosib yng nghynllun Ysgolion Iach, cynllun a ariennir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd derbyn y wobwr yn benllanw i gyfnod hir o sicrhau fod iechyd, lles a diogelwch y plant yn rhan annatod o weithgareddau a bywyd bob dydd yr ysgol. Gweithiwyd yn galed i sicrhau fod plant yr ysgol yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ffitrwydd a bwyta'n iach, yn ogystal â'u hannog i rannu pryderon er mwyn dysgu bod siarad yn bwysig.

Yn ôl Lyn Edwards - un o'r Aseswyr a dreuliodd ddeuddydd yn yr ysgol yn arsylwi gwersi, yn sgwrsio â'r plant ac yn pori drwy bolisiau - mae Ysgol Abercaseg yn ysgol arbennig o hapus sy'n rhoi lle canolog i les a llais pob plentyn. Pwysleisiodd bwysigrwydd y Sgwad Syniadau, sef grŵp o blant sydd wedi'u hethol i gynnig syniadau ynglŷn â sut i wella a newid pethau yn yr ysgol.

Creu fideo

"Mae gwaith y Sgwad Syniadau yn cael ei amlygu mewn sawl agwedd o fywyd iach yr ysgol. Maen nhw wedi dewis dulliau o hyrwyddo presenoldeb ac wedi creu fideo i egluro pam fod golchi dwylo'n bwysig," meddai Lyn Edwards.

Roedd Ela Williams o Flwyddyn 2 yn aelod o'r Sgwad Syniadau yn ystod ymweliad yr Aseswyr ac fel gweddill plant yr ysgol mae hi wedi dysgu llawer ynglŷn â sut i gadw ei hun yn iach.

"Mi wnes i fwynhau gwneud fideo ynghylch sut mae golchi dwylo oherwydd mi wnes i ddysgu ei bod hi'n bwysig defnyddio llawer o sebon."

Dim ond llond dwrn o ysgolion ledled Cymru sydd wedi derbyn y wobwr hon, ac yn ôl Lyn Edwards rhaid diolch i holl staff, Llywodraethwyr a rhieni Ysgol Abercaseg am lwyddo i ddod â hi i Fethesda.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Hydref

£30.00	(1) Angharad Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda.
£20.00	(111) Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda.
£10.00	(94) Sharon Hughes, 11 Glan Gwna, Caeathro.
£5.00	(79) Mair Griffiths, Penybryn, Waen Wen.

Rhoddion i'r Llais

£4.50	Di-enw Bethesda
£10.00	Di-enw - J.C.
£5.00	Dafydd Pritchard, Rhes Elfed, er cof am ei chwaer, Helen, a fu farw 3 Hydref 2013 yn 63 oed, hefyd ei fam, Rose, a fu farw 8 Hydref 1991 yn 80 oed. "Gwag yw'r cartref ar eich ôl".
£10.00	Ann Carran, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
£20.00	Er cof annwyl am Mrs. Roma Griffiths, Garneddwen. Priod annwyl y diweddar Mr. William Griffiths, mam, nain a hen nain annwyl a charedig, a fu farw 5 Hydref 2015. Oddi wrth y teulu.

Diolch yn fawr

Perfformiadau lleol- Galeri Caernarfon: 18 - 21 Tachwedd (7 sioe)

Tocynnau: 01286 685222

Pontio Bangor: 15 - 17 Rhagfyr (5 sioe)

Tocynnau: 01248 382828

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau

Hydref 23 Gweinidog (Oedfa Fedydd am 3.15yp).

Hydref 30 Parchg. Euros Wyn Jones.

Tachwedd 6 Gweinidog (Cymun).

Tachwedd 13 Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

Tachwedd 20 Parchg. Gwyndaf Jones. Oedfaon am 5.00yp oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 y.b.

Clwb Dwylo Prysor, nos Wener am 6.30 y.h.

Te Bach – dydd Llun, 24 Hydref am 2.30 – 4.00.

Anfonwn ein cofion fel Eglwys at Mr Raymond Tugwell, Ffordd Llanllechid, yn yr ysbyty, ac at bawb sy’n sâl gartref neu yn yr ysbyty.

Ar 15 Medi, yng nghartref Plas Ogwen, bu farw un o’n haelodau, sef Miss Nancy Jones, Erw Las, yn 95 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yng Ngharmel ddydd Iau, 22 Medi, ac yna ym Mynwent Coetmor. Roedd y gwasanaeth dan ofal ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard a’n cyn weinidog, y Parchedig Geraint Hughes, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Yna, ddydd Llun, 26 Medi, bu angladd Mrs. Maureen Jean Thomas, gynt o

Gerddi Penlon, a fu farw ym Mhlas Ogwen ar 14 Medi. Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard, gyda Mrs. Helen Williams yn cyfeilio. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Ar nos Sul, 2 Hydref, gyda’n gweinidog yn gwasanaethu, derbyniodd yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysor, bymtheg Beibl newydd er cof am y ddiweddar Mrs. Eirian Pritchard a fu’n athrawes Ysgol Sul yng Ngharmel am flynyddoedd. Ar ddechrau’r gwasanaeth ledwyd yr emyn cyntaf gan Dai Ifor ac yna darllenwyd pennod o’r Beiblau newydd gan Martha, Elen, Beca, Ffion, Hannah ac Owain. Cafwyd cân gan Elen gydag Owain yn cyfeilio. Braf oedd cael derbyn y rhoddion ym mhresenoldeb Mr a Mrs. Gareth Pritchard a’r plant yn yr oedfa.

Cydymdeimlwn fel eglwys â Mr a Mrs. Bryan Griffith, Meilir, Awel a Betsan, Ffordd Bangor, yn eu profedigaeth o golli mam Cari yn Llandderfel, y Bala, ar 10 Medi.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd Clwb Llanllechid b’nawn Mercher Medi 28ain yn Festri Carmel.

Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan yr is-lywydd yn absenoldeb y llywydd.

Dymunwyd gwellhad buan i Gwenno sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Roeddem yn falch o weld Myfanwy yn bresennol ar ôl ei chodwm.

Ein siaradwraig oedd Meleri Davies yn enedigol o Drawsfynydd ond yn byw yn Llanllechid ers peth amser. Mae wrth ei gwaith bob dydd yn swyddfa Partneriaeth Ogwen fel prif swyddog ac un o gyfarwyddwyr Ynni Ogwen.

Mae’r siop yn gwerthu cardiau

penblwydd, gemwaith a gwaith ceramig. Hefyd mae cymorth i ferched a gwasanaeth heddlu i’w gael yno. Cafwyd pnawn diddorol iawn yn ei chwmni.

Rhoddwyd y raffi gan Margaret Owen ac enillwyd gan Medi. Paratowyd y te gan Vera a Rita. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 26ain.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus iawn i Gwenno Llwyd Beech yn 7 oed ar Hydref 14eg. Gobeithio gei di benblwydd gwerth chweil, gan Mam, Dad a Gruffudd.

Diolch

Dymuna Augusta Williams, Bron Arfon, Debbie a’r teulu, Richard a Glyn a’u teuluoedd, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist marwolaeth sydyn John Emlyn Williams ym mis Awst.

Diolch am bob ymweliad, galwadau ffôn a’r llu o gardiau, ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdano at Ambiwylans Awyr Cymru.

Clwb Drama Crawia

Mae Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd, yn falch iawn o gael y fraint o ddechrau clwb drama i ieuenctid yr ardal yn Neuadd Ogwen y mis hwn. Bydd y clwb yn agor ar gyfer cofrestru ar Hydref 13eg, ac yn cyfarfod bob nos iau. Bydd croeso i flynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 ddod rhwng 6 a 7 o’r gloch, a blynyddoedd ysgol 7, 8 a 9 ddod rhwng 7 ac 8 o’r gloch. Byddwn yn cael gweithdai actio ac yn paratoi at gynhyrchiad cyffrous ar y cyd â Llechen Las.



Dyma rai o’r plant efo’r fasged ffrwythau

Ysgol Sul Carmel

Yn ystod mis Medi bu plant yr Ysgol Sul yn ymarfer canu a darllen ar gyfer cymryd rhan yn y gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Yn ogystal bu’r plant yn brysur yn paentio lluniau o ffrwythau a llysiau mewn basgedi i’w harddangos yn y Capel dros yr Ŵyl.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan

Neville Hughes 600853

(nev_hughes@btinternet.com)



Codi Arian i Dŷ Gobaith

Dyma Llinos Bryn o Rachub a Menna Roberts, y ddwy yn gweithio i Cymorth Llaw ym Mangor. A drwy fflio lawr y weiren wîb yn ddiweddar, llwyddodd y ddwy i godi £400 i Tŷ Gobaith, diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

武術道場
身心並進

Wu Shu Kwan®
Chinese kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com \ Gwpeplyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-broliaid
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda
CANOLFAN TREGARTH
Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru
- Hyfforddwyr -
Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**
4ydd Gradd Gwregus Du
Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**
3ydd Gradd Gwregus Du

Y Ffordd Hawsa a'r Mwyaf Effeithiol i Wella Eich:
Cryfder • Cyflymdra • Ystythder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

CHWILAIR

STRYDOEDD / FFYRDD LERPWL

Yn y chwilair y mis yma mae enw DEUDDEG STRYD / FFORDD YN LERPWL. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. Ond trwy ddamwain mae'r gair heol yn ymddangos ddwy waith ynddo. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Tachwedd 1af. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Y mis diwethaf roedd Mr Emyr Roberts wedi bod yn meddwl am rywbeth i'w fwyta ar ei ffordd adref o'n gwyliau. Mae fy niolch yn fawr iddo eto'r mis yma, gan ei fod wedi crwydro strydoedd Lerpwl yn chwilio am destun i chwi. Dim ond pump ohonoch gafodd yr atebion cywir y mis diwethaf, er fod nifer fawr wedi darganfod WY fel un ateb ac eraill wedi cael hyd i CWP. **Dyma atebion Medi:** Afal; Cacen Gri; Cacenni Grawys; Cyrents Duon; Eirin Mair; Lemon; Llus; Mwyarduon; Nadolig; Riwbob; Siocled; Spwng. **Dyma enwau'r**

A	P	A	F	W	S	T	R	Y	D	R	H	I	W	L	A	S	F	H	R
I	A	E	F	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H
E	R	I	O	M	G	R	H	O	D	F	A	M	A	D	R	Y	N	V	H
M	C	D	R	W	H	E	O	L	H	E	O	L	G	A	R	T	H	F	H
U	A	Z	D	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	F	O
F	B	R	D	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	O	R
I	E	A	C	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R	H	C	Q	R	H
W	R	E	A	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	P	T	T	D	C
B	T	B	D	C	U	U	J	P	L	T	H	M	I	V	V	H	D	D	C
B	S	B	O	F	R	F	O	G	J	V	C	I	I	R	R	T	X	B	I
M	W	H	G	T	T	O	S	K	O	P	E	W	R	C	M	R	K	A	C
B	R	O	A	R	C	X	V	R	Y	H	L	S	T	M	R	A	E	L	F
Y	N	J	N	D	Z	H	B	C	W	O	R	S	C	R	A	N	I	A	X
N	A	I	L	X	J	J	M	B	W	T	A	E	X	M	D	E	X	K	F
U	L	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	H	R	Z	Q	R	P	O	C	T
D	L	G	F	F	R	A	N	C	O	N	D	R	E	I	F	S	W	S	L
Z	S	A	N	I	D	N	O	L	E	B	Y	E	A	J	K	O	J	C	L
N	O	L	R	V	O	E	G	J	P	W	R	P	G	S	O	L	W	J	J
Q	L	U	L	F	S	D	V	T	X	E	T	U	G	H	S	C	L	Z	E
A	C	F	X	I	W	E	T	Z	H	K	S	V	A	G	B	N	K	A	D

rhai a gafodd yr ateb cywir: Doris Shaw, Bangor; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Rosemary Williams, Tregarth. **Enillydd Medi oedd:** Elfed Bullock, 8 Maes y Garnedd, Bethesda.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Dau ben-blwydd

Mrs Vera Griffith, 27 Maes y Garnedd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed a'i mab, Calvin Casey oedd yn dathlu ei benblwydd yn 63 oed yr un diwrnod.



Mrs Vera Griffith a Calvin ei mab.

Dathlu'r 70

Llongyfarchiadau mawr i Margaret Davies, Llain y Pebyll, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ddechrau'r mis. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu gyda dy deulu a'th ffrindiau, Margaret. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau iti i'r dyfodol.

Hen nain

Llongyfarchiadau i Irona Owen, Rhes Coetmor, ar ddod yn hen nain ddwywaith mewn ychydig o fisoedd. Yn gyntaf, ganed Billy ym mis Mai, i'w wyres, Michelle, ac yna, yn ddiweddar, ganed Gwawr, i wyres arall, Dana. Llongyfarchiadau mawr ichi, Irona.

Astudio yn Seland Newydd

Pob dymuniad da i Sioned Carran, 26 Ffordd Ffrydlas sy'n teithio i Seland Newydd ar 13 Hydref. Mae'n bwriadu mynd i'r brifysgol yn Dunedin i astudio hanes yn y flwyddyn newydd. Pob lwc ar dy antur Sioned, oddi wrth y teulu oll.

Llwyddiant Efeilliaid o Fethesda

Llongyfarchiadau enfawr i'r "Athro" Paul Hughes o Melton Mowbray, gynt o Fethesda, ar ei yrfa newydd ym Mhrifysgol De Montfort, Leicester. Mae Paul yn dechrau yn ei swydd fel Athro mewn Rheolaeth Strategol y

mis yma. Tipyn o gamp iddo ac yntau yn dioddef hefo ei iechyd ers rhai blynyddoedd. Mae'r teulu i gyd yn falch iawn ohono.

Hefyd rhaid rhoi clod i'w frawd Mathew sydd wedi cael ei adnabod fel un o ymchwilwyr blaenllaw'r byd mewn theori busnes. (Gwelwch hyn ar wefan adran busnes Prifysgol Durham).

Mae Mathew wedi cael anrhydedd arall sef Gwobr Deon ar gyfer addysgu 2016 oddi wrth Brifysgol Durham. Hon yw'r ail wobr dysgu mae wedi ei chael. Llongyfarchiadau iddo yntau.

Mi ddylai Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen fod yn falch iawn o'u cyn ddisgyblion. Maent wedi gweithio'n galed iawn i gyrraedd y safon yma ac maent yn glod i'r ysgolion ac i'r ardal hefyd.

Gobeithio y cawn glywed fod Dr. Mathew Hughes wedi cael swydd fel Athro yn y dyfodol agos! Buasai hynny yn dipyn o gamp - dau efaill yn Athro! Chlywsom ni am ddim byd tebyg i hynny yn unman heb sôn am rai o'r dyffryn.

Mae Paul a Mathew yn feibion i Denis a Janet Hughes (gynt o Stad Coetmor, ac yn awr ym Melton Mowbray hefo'r teulu bach). Mae'n siŵr fod taid a nain, sef Jack a Jean Williams, 60 Maes Bleddyn, yn falch iawn o'r hogia' hefyd.

Profedigaeth

Ar 18 Awst, yn ei gartref ym Mhorthmadog, bu farw Robert Henry (Wil H.) Thomas. Gŵr annwyl Margaret, tad cariadus Gary a Faye. Magwyd Rob ym Maes Coetmor, yn frawd i Doreen, Ceinwen, Ron a'r diweddar Cyril. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu oll.

Ysbyty

Cofion at y rhai fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod gartref ac yn gwella erbyn hyn. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais:- Mrs. Vera Parry, Erw Las, Mr. Alan Thomas, Ffordd Ffrydlas a Mr. John Hughes, Bontuchaf.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Selwyn Jones, ar achlysur hapus o ddod yn daid a nain unwaith eto - i ŵyr bach!

Pen-blwydd

Ddechrau mis Hydref dathlodd Ceri Hulme, Erw Las, ei phen-blwydd yn 18 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ti Ceri!

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Teulu'r diweddar Mr. William Leslie Williams, Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai, sef ei briod, Mrs. Dilys Williams a'r plant, Griff, Richard, Jacqueline, Myfanwy, Leslie, Jenny, Evan a'u teuluoedd.

Mr. a Mrs. Bryan Griffith a'r plant, Meilir, Awel a Betsan, Ffordd Bangor, yn eu profedigaeth sydyn ym marwolaeth mam Cari, sef Mrs. Ifanwy Vaughan Jones, Henblas, Llandderfel, y Bala.

Teulu'r ddiweddar Mrs. Maureen Thomas, Plas Ogwen, gynt o Gerddi Penlon, a fu farw 14 Medi.

Marwolaethau

Glenys Mary Lloyd Jones
Ar 13 Medi, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Miss Glenys Mary Lloyd Jones, Rhes Coetmor, modryb hoffus i Richard, Alison, Nicola a Fiona a'u teuluoedd. Bu ei hangladd ddydd Gwener, 25 Medi, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor. Yn gwasanaethu 'roedd Y Parchg. John Mathews, y Parchg. Christina McCrea a'r Chwaer Juliet, gyda Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Nancy Jones

Yn dawel ym Mhlas Ogwen, ar 15 Medi, bu farw Miss Nancy Jones, Erw Las yn 95 mlwydd oed. Roedd yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. Richard Jones, Stryd Goronwy, Gerlan, yn chwaer i'r diweddar Emrys ac yn efaill i Megan. Modryb annwyl i Tony a Michael a'r teulu yng Nghaer, ac i Wendy a'r teulu, Bron Arfon, Roedd yn aelod ffyddlon yng nghapel Carmel, Llanllechid, wedi i Gapel Mawr, Bethesda gau. Roedd Nans wrth ei bodd yn teithio ac yn mwynhau sgwrsio hefo pawb!

Bu ei hangladd ddydd Iau, 22 Medi, gyda gwasanaeth yng nghapel Carmel a mynwent Coetmor.

Ei gweinidog a'i chyn weinidog, sef y Parchg. John Pritchard a'r Parchg. Geraint Hughes oedd yn gwasanaethu, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Marian Eleri Jones

Ar 27 Medi, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Marian Eleri Jones, 1 Tyddyn Ddeici, Llanfairpwll, gynt o Rhos y Coed, Bethesda. Roedd yn 69 mlwydd oed. Priod annwyl Mr. Selwyn Jones, ac yn fam a mam yng nghyfraith i Gwenllian a John, Erw Las, a Bethan ac Aled, Llanrug. Nain arbennig i Steffan, Elin, Megan, Siôn ac Ifan, a chwaer Rhiannon, Eirwen

a Roberta. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 5 Hydref. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mercher, 14 Medi, aeth yr aelodau ar wibdaith gan alw yn gyntaf yng Ngerddi Gordale, ble cafwyd paned ac ychydig o siopa cyn mynd ymlaen i Lerpwl. Cafwyd diwrnod da a hynod o braf. Diolchwyd am y trefniadau gan y cadeirydd, Mr. Elfed Bullock.

Anfonwn ein cofion at bawb sy’n sâl, ac rydym yn cydymdeimlo â Mrs. Jesse Jones a’r teulu, Stryd Glanafon, yn eu profedigaeth o golli Mrs. Marian Jones, Llanfairpwll.

Cofiwch am wibdaith mis Tachwedd, sef dydd Mercher, 9 Tachwedd i’r Wyddgrug a Brychdyn. Cychwyn o Dregarth am 8.10yb a galw yn Rachub am 8.20yb.

YR EGLWYS UNEDIG

Oedfaon difyr

Rydym yn prysuro gyda’r trefniadau ar gyfer yr Ŵyl Ddiolchgarwch a’r Nadolig. Mae’r plant yn ôl ac yn dod i’r oedfa fore am gyfnod byr. Cawsom oedfa dda iawn gyda Dafydd Iwan a’r gitâr yn gymorth iddo i ganu a’r plant yn mwynhau wrth ymuno i ganu gyda fo.

Cawsom oedfa Gymun gan y Parchg. Harri Parri – oedfa arbennig iawn unwaith eto. Mae’r Clwb Nos Fawrth wedi ail afael

Llwybr Llechi Eryri



Noson Rhannu Stwff a Straeon am y Chwarel

9 Tachwedd - 6.30 i 7.30 yn Ysgol Llanllechid

Dewch i rannu eich lluniau, eitemau a straeon am fyw gyda’r chwarel: gyda disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Llanllechid ac ar y cyd â Chor y Penrhyn.

Enwau lleoedd, dywediadau a llysenwau, traddodiadau ac arferion, cymdeithasu a hamddena, y cartref a’r chwarel

yn ei waith a bydd y gymdeithas yn ail ddechrau ar 13 Hydref. Croesawn bawb i gael paned ar ôl yr oedfa ac mae hynny’n gaffaeliad mawr i bawb, yn enwedig gan fod y plant yn ymuno â ni. Mae un o’r plant yn darllen emyn ar ddechrau’r oedfaon boreol. Cafwyd darlleniadau graenus ganddynt ac mae’n diolch iddyn nhw’n fawr am eu cyfraniadau.

Dechreuodd y côr ail ymgynnull i’r ymarferion gogyfer â Gwasanaeth Cymunedol y Nadolig o dan ofal Mrs. Menai Williams.

Cyhoeddiadau Hydref a Thachwedd

Hyd 23	Y Parchg. Gwyndaf Jones
Hyd 30	Y Parchg W H Pritchard
Tach 6	Y Parchg. Pryderi Llwyd Jones
Tach 13	Trefniant Mewnol

Paned

Mae’r baned ar foreau Iau rhwng 10 a 12 y bore yn llwyddiannus iawn. Croeso i bawb ymuno â ni.

Llyfrgell Bethesda

Cymorth Technoleg Gwybodaeth

Angen cymorth gyda thechnoleg gwybodaeth? Bydd cyfle i gael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio’r We, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, cymorth i chwilio am waith ar y We a llawer mwy...

Bydd Citizens Online Gwynedd yn darparu hyfforddiant technoleg gwybodaeth yn Llyfrgell Bethesda o ganol Mis Hydref ymlaen. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch gyda’r Llyfrgell ar 600737 neu Llbethesda@gwynedd.yyw.cymru am fwy o fanylion.

Sialens Ddarllen yr Haf

Llongyfarchiadau mawr i bob un plentyn, o’r ysgolion lleol, a gwblhaodd y Sialens Ddarllen dros yr Haf. 83 wedi cymryd rhan a 60 wedi cwblhau, ac yn derbyn medal yn eu hysgolion. Da iawn chi!

Bethesda yn derbyn statws Cyngor Dosbarth Trefol

Yn ôl Gwyddoniadur Cymru a gyhoeddwyd gan Yr Academi Gymreig yn 2008, Bethesda oedd yr unig un o ardaloedd y chwareli llechi yn Sir Gaernarfon i dderbyn statws Cyngor Dosbarth Trefol a hynny yn 1894. Cyrhaeddodd poblogaeth Bethesda ei hanterth yn 1901 pan oedd 5,281 o bobl yn byw yma.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

23 Mr. Arwel Roberts.
30 Parchg. Trefor Jones.

Tachwedd

06 Parchg. O.G. Williams.
13 Parchg. Gerwyn Roberts.
20 Teulu Royal i drefnu.
Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Cneifio gyda gwelleifau

Llongyfarchiadau i Beca Jackson, Braich Tŷ Du, Nant Ffrancon ar ennill cystadleuaeth gneifio gyda gwelleifau i lawr yng Ngwlad yr Haf.



Beca wrthi’n galed yn cneifio gyda gwellaif.



Beca gyda’i gwobrau

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1983-1985

1983

- 10/01/1983: Diwrnod cyntaf John Elwyn Hughes yn brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu yno tan 1988.
- 03/1983: Dr John Llewelyn Williams yn traddodi ei ddarlith ‘Mae yno flas y Cynfyd’ yn Ysgol Pen-y-bryn (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda).
- Sefydlu Cwmni Drama’r Llechen Las. 16 o aelodau.
- Maffia Mr Huws (Siôn Jones, Gwyn Jones, Hefin Hughes, Deiniol Morris) yn cyhoeddi eu record gyntaf.
- Hughie John Edwards yn agor Swyddfa Cyfreithiwr yng Nghwrt Victoria, Stryd Fawr.
- 02/07/1983: Pesda Roc – gŵyl o ganu pop o fore gwyn tan nos.
- 07/1983: Gwibdeithiau’r Moduron Porffor: Llandudno: £1.50; Wrecsam: £2.50; Leeds: £4.00; Stratford-on-Avon: £4.25; Caer: £2.50; Southport: £3.25; Caer Efrog: £4.50.
- Awst (tua chanol y mis): Agor y ffordd newydd rhwng Pont y Pandy a Llandygái.
- 09/1983: Tirlithriad yn cau’r lôn yn Nant Ffrancon (rhyw filltir uwch i fyny na Thyn-y-maes).
- 09-10/1983: Dau weithiwr llawn-amser a 10 gweithiwr rhan-amser yn adnewyddu hen gapel y Tabernacl ar ran Cangen Bethesda o Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr Cymru. Gobeithir cynnal arddangosfeydd ar destunau lleol a Chymreig a disgwylir y bydd lle i 269 o bobl eistedd a bydd at wasanaeth grwpiau lleol â diddordeb mewn Celfyddyd a Chrefft ac agweddau eraill ar waith y Gymuned.
- 16/11/1983: Cau Swyddfa’r Ganolfan Waith ym Methesda. Agorwyd 04/1979.
- Agor ‘The Joys of Life (Visitor Centre)’ ym Mrynderwen ger Coed-y-Parc.

1984

- 14/03/1984: R. O. Roberts yn traddodi ei ddarlith ‘Yng Nghwmpasoedd Moelyci – Cyfarchwyllo Hanesyddol’ yn Ysgol Pen-y-bryn (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1984.
- 23/03/1984: Bwrlwm Gaeaf yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.
- Diwedd 03/1984: Gwasanaeth symudol y Ganolfan Gynghori (C.A.B.) yn dod i ben

- ym Methesda. Sefydlwyd y gwasanaeth mewn uned deithiol yn 1974.
- 05/1984: Agor Llyfrgell newydd Bethesda ar Allt Cefnfaes.
- 22/06/1984: Marw Syr Idris Foster (Caer Onnen, Cilfodan), yr ysgolhaig Celtaidd, a aned yn y Carneddi. Gwasanaeth yn Eglwys Glanogwen. Claddwyd ef ym Mynwent Eglwys Goffa Robertson yng Nghoetmor.
- 07/1984: Huw John Hughes ac Arwyn Oliver, Prifathro a Dirprwy Ysgol Pen-y-bryn yn gadael, un i fod yn Uwch-ddarlithydd yn Adran Addysg y Coleg Normal a’r llall i fod yn brifathro Ysgol Llanllechid.
- 14/07/1984: Bwrlwm Haf yn Nôl Ddafydd.
- 18/09/1984: Mrs Lilian Hughes, Y Gerlan, yn lansio’i hymgyrch, ‘Milltir o 50 ceiniogau’, gyda’r bwriad o godi £27,000 at ymchwil, triniaeth a gofal i rai’n dioddef o ganser.
- 12/10/1984: Angladd W. T. Parry (Wil Parri Bwtsiar). Roedd yn 85 oed.
- 24/11/1984: Marw Emyr Hywel Owen, MBE, MA., 7/2 Stryd y Ffynnon, Gerlan, yn Ysbyty’r Druid, Llangefni, cyn-bennaeth Adran Addysg y Coleg Normal, awdur Atlas Sir Gaernarfon a Gwŷr Hanes Cymru 1 a 2, llyfryn ar hanes Capel y Gerlan yn 1969. Claddwyd ym Mynwent Coetmor.
- 12/1984: Ieuan Llewelyn Jones yn ymddeol o fod yn Bennaeth yr Adran Hanes yn Ysgol Dyffryn Ogwen, wedi bod yno am 29 o flynyddoedd.

1985

- 03/04/1985: T. Gwynn Jones (Llanfairfechan) yn traddodi ei ddarlith ‘Dylanwadau’ yn Ysgol Pen-y-bryn (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1986.
- 07/1985: Gwibdeithiau’r Moduron Porffor: Llandudno: £1.75; Wrecsam: £2.75; Amwythig: £3.00; Alton Towers: £8.20; Caer: £2.75; Southport: £3.60.
- 06-13/07/1985; Wythnos Garnifal Tregarth.
- Marw’r meddyg teulu, Dr David Thomas. Daethai i Fethesda tua 1971 a dysgodd Gymraeg yn rhugl.

I’w barhau

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Ysbyty

Ni fu Mrs. Megan Parry yn rhy dda ac fe’i cymerwyd i Yabyty Gwynedd. Da clywed ei bod gartref ac yn gwella erbyn hyn. Cofion gorau atoch.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Dilys Williams, 7 Tan y Bwlch, yn ei phrofedigaeth o golli Mr. Leslie Williams, gŵr, tad, taid a hen daid annwyl iawn. Cydymdeimlwn hefyd â’r plant a’r teulu oll. Rydym yn meddwl amdanoch!

Diolch

Hoffai Mrs. Dilys Williams ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati hi a’r plant. Diolch am y llu cardiau a’r galwadau ffôn ar achlysur trist ei phrofedigaeth sydyn o golli Mr. Leslie Williams.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lynda a Justin ar enedigaeth bachgen bach – Noah. Mae pawb wedi gwirioni, a’i chwiorydd Leah, Lois, Lauren a Llio wedi mopio’n lân! Cofion atoch fel teulu!

Doethuriaeth

Llongyfarchiadau i Dr. Siôn Eirwyn Richards, Pen y Bryn, Bethesda, ar ennill doethuriaeth o Brifysgol Aberystwyth. Magwyd Siôn yn Sling ac mae’n gyn ddisgybl o Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Pob lwc iddo i’r dyfodol!

Eglwys St. Ann a St. Mair

Hydref 23: Cymun Bendigaidd
Hydref 30: Dim gwasanaeth boreol (Pererindod Eglwysi’r Ardal i Ffynnon Gwenffrewi, Y Fflint)
Tach 6: Boreol Weddi
Tach 13: Sul y Cofio - Cymun Bendigaidd
Dechreuir am 9.45 y.b.
Cynhelir ein Ffair Nadolig, brynhawn Sadwrn, 12fed Tachwedd am 2 o’r gloch. Bydd y stondinau arferol ar gael ynghyd a phaned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy’n sâl ar hyn o bryd. Brysiwch wella!

Y Rhyfel Byd Cyntaf

Gan Andre Lomozik

Fis Mehefin diwethaf roeddwn wedi enwi rhai o fechgyn yr ardal a gollwyd yn y Rhyfel Mawr. Yn eu mysg roedd enw Richard Thomas Price, a fu farw yn 30 oed. Ddechrau Mis Gorffennaf derbyniais llythyr oddi wrth Mrs Donna Coleby, o Preston, yn sôn amdano. Bum mewn cysylltiad â hi ychydig wythnosau yn ôl yn gofyn a fyddai'n fodlon i mi anfon y llythyr i Llais Ogwan, gan fy mod yn meddwl y byddai darllenwyr y Llais â diddordeb ynddo. Yn ei hateb dywedodd fod croeso i mi roi'r llythyr yn rhifyn Hydref o Llais Ogwan ac ychwanegodd, "Mi fyddaf yn cael pleser mawr hefo'r Llais - ei ddarllen o glawr i glawr, a chael y croesair yn gywir ambell dro!"

Yna, â ei llythyr ymlaen i ddweud; "Diddorol iawn gweld enw Richard Thomas Price - "Collwyd yn y Rhyfel Mawr 27-6-1916" yn Llais Ogwan. "Roedd Richard Thomas Price yn frawd i fy nain Gerlan - dim o'i hanes yn y teulu - neb byth yn sôn amdano, dim ond un llun, a nain wedi ysgrifennu ar gefn y llun: "Richard Thomas Price, Sapper Canadian Engineers. Killed in action June 27th 1916, buried somewhere in Belgium. My only brother."

Trwy wneud ymchwil teulu fe gefais ei hanes wedi ymuno â'r Canadian Tunnelling Engineers ac wedi ei ladd mewn llai na blwyddyn ar ôl ymuno a'r fyddin. Mae bedd iddo ym mynwent y Railway Dugout yng Ngwlad Belg a'r geiriau Cymraeg "Hun mewn Hedd" ar ei garreg fedd.

Yn 2013 aeth Anne fy chwaer a'i gŵr i'r fynwent yn Belgium i weld ei fedd.

Rhyfedd meddwl ar ôl can mlynedd fod ei enw yn Llais Ogwan, yn ôl ym Methesda!

Llawer o ddiolch
Donna (Coleby)

Hefyd anfonodd Andre'r wybodaeth isod am filwr arall o'r fro hon a gollodd ei fywyd yn y rhyfel byd cyntaf



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis Awst
Ganrif i'r mis hwn
ER COF
Am
R. Williams
Milwr Cyffredin 40246
Byddin Frenhinol y Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw
26 - 10 - 1916
Yn 25 oed
Mab John M. a Margaret Williams,
Cefnfaes House, Carneddi Rd

Diolch i Andre Lomozik am anfon y wybodaeth er cof am y milwr uchod i'r Llais - un o'r "hogiau" y sonia R.Williams Parry amdanynt yn ei englyn enwog sydd i'w weld ar y gofeb ym Methesda. Gol.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Can Mlynedd Rhyngddynt!

Dyma lun o Anti Mary Gweneth (Griffith), Gors yr Eira, Mynydd Llandegai a oedd yn 103 Hydref 5 gyda'i gor wyres, Elizabeth Kelly Williams sy'n dair oed, ac yn ferch i William a Danielle Williams, Penmaenmawr. Mae Anti Mary wedi ei geni a'i magu yn y Mynydd ac yn awr yn byw gyda'i merch Einir Frodsham.

Mae Anti Mary (chwedl pawb o fy oedran i!) wedi bod yn

hynod ffodus ac wedi cael tair teisen penblwydd! Cafodd y gyntaf Ddydd Sul gyda rhai aelodau o'r teulu; yr ail ar Ddydd Mawrth mewn "Te Bach" ar ol y Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Maes y Groes, Maesgeirchen. Yno daeth Deon Bangor, Kathy Jones, â theisen gyda canwyll arni iddi chwythu allan. Roedd y deisen wedi ei wneud gan un o aelodau Undeb y Mamau er



mwyni i drigolion Plas Hedd a mynychwyr Gofal Dydd Plas Hedd,ei fwynhau. Yna ar Ddydd Iau cafodd ei thrydedd teisen yn adran Gofa Dydd Plas Hedd mewn parti

penblwydd iddi gyda Dylan (o Dylan a Neil) yn diddanu. Lwcus dros ben. (Diolch i Georgina am yr hanesyn a'r llun. - Gol)

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd
7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda 'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS

**MODURDY
FFRYDLAS**

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Datblygiadau Ynni Ogwen

Mae'r gwaith adeiladu ar gynllun hydro cymunedol Ynni Ogwen yn parhau gyda'r gwaith anodd o adeiladu cored yn yr afon wedi ei gwblhau. Yn unol â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd angen i'r gwaith strwythurol yma gael ei gwblhau cyn canol Hydref ac mae'n dda gallu cyhoeddi i ni gwblhau'r gored o fewn yr amserlen. Yn y lle cyntaf, roedd yn rhaid defnyddio bagiau tywod i ddargyfeirio llif yr afon tra bo'r conerid yn sychu yn y gored isel. Cwblhawyd y gwaith hwnnw o fewn ychydig ddyddiau dan oruchwyliaeth swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ystod mis Medi, cwblhawyd y gwaith ar y brif gored ac mae'r siambr i dderbyn y dŵr hefyd wedi ei gosod. Mae'r contractwyr yn awr yn symud ymlaen at adeiladu sylfeini'r cwt tyrbîn a thyllu llwybr y beipen fydd yn cludo'r dŵr i lawr i'r tyrbîn ac yna'n ôl i'r afon.

Yn ystod mis Medi hefyd, bu aelodau o bwyllgor Ynni Ogwen yn brysur yn rhannu profiadau am ein gwaith mewn amrywiol weithgareddau. Bu Gruffydd Wyn, Cyfarwyddwr a Rheolwr Prosiect gyda'r fenter yn siarad gyda chriw o ddysgwyr ddaeth ar gwrs iaith amgen i Gaban Gerlan ac yn annerch criw o ffermwyr dan faner yr Academi Ffermio. Bu Meleri Davies, Cadeirydd Ynni Ogwen hefyd yn annerch cynhadledd Ynni Cymunedol Cymru, ble bu'n rhannu llwyfan gyda Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Uwch Swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill yn Neuadd Ogwen. Daeth dros gant o bobl o'r byd ynni cymunedol o bob

cwr o Gymru a thu hwnt at ei gilydd i'r gynhadledd ac roedd yn wych croesawu sefydliad Ynni Cymunedol Cymru i Ddyffryn Ogwen am y tro cyntaf.

Daeth newyddion da iawn i Ynni Ogwen yn ystod mis Medi hefyd gyda chlywed eu bod ar restr fer cystadleuaeth genedlaethol arall! Yn ogystal â bod ar restr fer gwobrau RenewablesUk Cymru eleni clywodd y gymdeithas budd cymunedol eu bod hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cynnal Cymru yn y categori Cymunedau Cynaliadwy. Y cyhoedd sy'n penderfynu pwy sy'n ennill felly gofynnwn yn garedig i holl ddarlennwyr Llais Ogwan i bleidleisio dros Ynni Ogwen ar wefan www.cynnalcymru.com

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwaith adeiladu, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy ffonio 01248 602131 neu trwy e-bostio post@ynniogwen.cymru



Rhai o'r cynrychiolwyr a fynychodd gynhadledd Ynni Cymunedol Cymru



Y Gored newydd ar Afon Ogwen a fydd yn darparu dŵr i'r cynllun hydro.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Heddd Williams, Tai'n Cae, yn ei brofedigaeth o golli modryb, y ddiweddar Mair Jones, oedd yn byw yn Llangefni.

Dathlu'r 70

Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon Hughes, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ddechrau'r mis. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu gyda dy deulu, Rhiannon. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau iti i'r dyfodol

Profedigaeth

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Richard Williams, Ciltrefnus, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, y diweddar Leslie Williams, Mynydd Llandygai.

Nain a Taid

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd ac Elen Edwards, Glanrafon, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed merch, Gwawr Marie, i'w merch, Dana, a'i phartner, Gerallt. Mae Gwawr yn chwaer fach i Huw a Harri, ac mae'r teulu i gyd wedi gwirioni ar y fechan. Llongyfarchiadau mawr, hefyd, i'r ddwy hen nain, Joan Edwards, Glanrafon, ac Iona Owen, Rhes Coetmor, ar enedigaeth gor-wyres iddynt.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Dafydd Môn Hughes a Bethan Jones, Stryd y

Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli ewythr Dafydd, y diweddar Edwin Jones, oedd yn byw ym Mhwlheli.

Dathlu'r 60

Yn ddiweddar, dathlodd Martin Sturrs, Stryd y Ffynnon, ben-blwydd arbennig, sef ei 60 oed. Gobeithio iti fwynhau'r dathlu gyda dy deulu ym Malta, Martin. Pob dymuniad da iti!

Damwain

Cafodd Sian Shakespear, Ffordd Gerlan, ddamwain gas yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn y Fenni, pan fu iddi gael codwm, a thorri ei chlun. Braf yw gweld Sian adref bellach, ac yn cerdded o gwmpas. Pob dymuniad am wellhad buan iti, Sian.

Adref o'r ysbyty

Braf yw gweld Richard Jones, Stryd Hir, adref o'r ysbyty yn dilyn gwaeldd. Rydym yn gyrru ein dymuniadau am wellhad llwyr a buan iti, Rich.

Dathlu'r 50 oed

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Emlyn, Rallt Uchaf, ar ddathlu ei ben-blwydd yn hanner cant. Mawr obeithio y bu iti fwynhau'r dathlu gyda'r teulu a ffrindiau, a phob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna aelodau Pwyllgor y Caban ddiolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi, ac a gyfrannodd at y stondinau, a'r gwobrau raffi, ac a gynorthwyodd yn y bore. Codwyd tua £200, a bydd yr arian yn mynd tuag at gynnal a chadw'r Caban. Diolch i bawb!

Llythyrau at y golygydd

7 Winkfield Road,
WINDSOR,
Berks SL4 4BA

28 Medi 2016

Annwyl Olygydd,
Cefais bleser mawr yn darllen y cyfraniad ardderchog gan Wyn Thomas am gapel mawr, Bethesda. Rwy'n sicr ei fod wedi treulio oriau yn dod â phopeth at ei gilydd ac mae ein dyled yn fawr iddo. Diolch Wyn!

Gwnaeth ei stori am Dafydd Gwilym a'r pensil du i mi gofio am Mrs Maggie Brooks a wnaeth cymaint efo'r plant yng Nghapel Salem. Un tro, roedd drama fechan yn cael ei pherfformio i gofio am blant bach y trydydd byd, a Meirion, fy mrawd a minnau yn cynrychioli plant o'r Affrig. Defnyddiodd Mrs Brooks flam kannwyll a chorcyn i greu'r huddygl neu'r parddu a rhwbiwyd hwnnw ar ein hwynebau. Welsoch chi erioed yn eich bywyd y fath olwg ar neb!

Yng Nghapel Bethesda roedden ni'n addoli fel arfer ond doedd dim gwell na mynd i gapeli eraill y fro i gymryd rhan mewn cymanza ganu neu i wrando ar bregethwr enwog.

Fel Wyn, wna innau byth anghofio'r cymorth a gefais ar ddechrau bywyd ifanc trwy gyfrwng y capeli yn yr ardal. Trist bod cymaint ohonynt wedi eu chwalu ond mi fydd y Capel Mawr yn dal i sefyll er nad oes addoli'n digwydd yno rwan.

Yn gywir,
John Ffrancon Davies

O.N.

Rwy'n edrych ymlaen at weld darllenwyr y Llais yn helpu i lenwi'r bylchau sydd ymhlith yr enwau yn y llun gan Pat Hamilton o Gôr Plant Dyffryn Ogwen. Yn y cefn mae fy chwaer, Mair Davies, ac enw'r ferch nesaf at Sheila Williams ydy Idwen (Williams?). Ar y chwith i Sheila rwyf bron yn sicr mai enwau'r ddwy ferch ydy Phyllis Evans a Brenda Griffith (nid Myfanwy na Carol!)



Plant Ysgol Abercaseg ar daith ac yn dysgu am waith map

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



22 Hydref: Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

29 Hydref: Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir

05 Tachwedd: Cefnfaes – Clwb Camera.

12 Tachwedd: Caffi Coed y Brenin - NSPCC

19 Tachwedd: Cefnfaes – Neuadd Talgai.

26 Tachwedd: Cefnfaes – Plaid Cymru

26 Tachwedd: Neuadd Ogwen – Plaid Lafur (Ffair Nadolig)

03 Rhagfyr: Cefnfaes - Capel Jerusalem.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

**CYMDEITHAS
HANES DYFFRYN
OGWEN**

Nos Lun, 14 Tachwedd 2016
am 7.00 o'r gloch

yn Festri Capel Jerusalem
Naomi Jones

**Yr Ysgwrn – Cadw'r
Drws yn Agored**

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

SÊL PEN BWRDD

yn Neuadd Ogwen

Sadwrn, 29 Hydref
am 9.30
£5.00 y bwrdd

(Llys Dafydd os bydd y tywydd yn ffafriol gan ddod a'ch bwrdd eich hunan)

Rhif ffôn: 07789 916166

**CANOLFAN
CEFNFAES**

Bore Coffi
Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Sadwrn, 22 Hydref

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

**CANOLFAN
CEFNFAES**

Bore Coffi
Neuadd Talgai

Sadwrn, 19 Tachwedd

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Marchnad Ogwen

Tachwedd 12fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Tachwedd 23ain
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Rhagfyr 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

JAMIAU CARTRA

Ar Werth
(Elw at achosion lleol ac elusennau)

Ffoniwch Neville neu Angharad ar 01248 600853
Neu galwch heibio Siop Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda.

Hefyd
Stondin ym Marchnad Ogwen

23 Tachwedd
5.00 – 8.00

**CANOLFAN
CEFNFAES**

Bore Coffi
Clwb Camera

Sadwrn, 5 Tachwedd

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

**CANOLFAN
CEFNFAES**

Cyfarfod Blynyddol
Llais Ogwan

Nos Fercher, 16 Tachwedd
am 7.30 y.h.

Croeso cynnes i bawb

**CANOLFAN
CEFNFAES**

GYRFA CHWIST
HYDREF 25
TACHWEDD 8, 22 a 29
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

**CANOLFAN
CEFNFAES**

Bore Coffi
Eglwys Sant Cedol, Pentir

Sadwrn, 29 Hydref

10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU ☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai Gwasanaethau Diolchgarwch Sant Tegai

Dathlwyd Diolchgarwch y Cynhaeaf fore a phrynhawn yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd Sul yr zail o Hydref. Y pregethwr yn y bore oedd y Parchedig John Matthews a'r Parchedig Ddoctor Carol Roberts Llanberis oedd y bregeth wraig yn y prynhawn. Diolch i Hazel Jones a'r tîm o wirfoddolwyr a fu'n addurno'r eglwys mor hardd yn lliwiau'r Hydref ac i Nerys Jones a'i chriw o ferched am drefnu'r lluniaeth. Ymunodd addolwyr o St Cross ac o Eglwys Gelli, Tregarth â chynulleidfia Sant Tegai ac fe roddwyd y casgliad i gefnogi gwaith yr eglwys yn esgobaeth Gomoa Obiri yn Ghana.

Ail Ddarlith Goffa Archesgob John Williams (John Iore)

Daeth nifer sylweddol o drigolion y pentref ac o du hwnt i wrando ar ail ddarlith goffa Archesgob John Williams ar nos Wener Medi 23ain. Y siaradwr gwadd oedd yr Athro Ken Fincham o Brifysgol Caergaint, arbenigwr ar hanes Prydain yn y 16eg a'r 17eg ganrif. Traddodwyd darlith raenus a ddiddorol ar y frwydr rhwng John Williams ac Archesgob Laud am glust y Brenin Siarl zail ac, yn ei sgil, dylanwad ar y llys brenhinol. Diolch i'r Athro Fincham ac i Mrs Fincham am ddod i Landygai ac i'r Athro a Mrs Ian Russell am eu trefniadau. Codwyd dros £340 tuag at Gronfa'r Eglwys.

Hanner Marathon Noddedig

Bydd Huw Llewelyn Jones, Trefonwys,

Bangor yn rhedeg yn Hanner Marathon Conwy ar Dachwedd 20fed er budd yr eglwys. Buasem yn falch i gael eich cefnogaeth i hel noddwyr i Huw. Bydd yr elw yn mynd at gynnal a chadw ein heglwys hanesyddol. Os nad oes gennych ffurflen noddi eisoes, derbynnir unrhyw roddion yn ddiolchgar iawn gan Rhian Llewelyn Jones, Ann E. Williams neu Edmond Douglas Pennant erbyn dydd Sul 4ydd Rhagfyr 2016.

Pererindod Bro Ogwen 2016

Bydd Pererindod Bro Ogwen ar ddydd Sul Hydref 30ain. Man cychwyn y bererindod fydd gwasanaeth byr iawn yn Eglwys Sant Tegai am 9 o'r gloch y bore cyn neidio i'r car i ymweld ag Eglwys Sant Iago Treffynnon. Yno cynhelir Cymun Bendigaid cyn ymweld â ffynnon Sant Gwenffrewi. I ddilyn bydd ymweliad ag Abaty Basingwerk gyda chinio yn y Ganolfan cyn gyrru ymlaen i Frodordy Pantasaph. Rhagwelir bydd rhaglen y dydd yn dod i ben am tua 4 o'r gloch y prynhawn. Dewch i fwynhau cyfeillgarwch Cristnogol chwe eglwys y fro. Enwau i Nerys Jones cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Bingo'r Eglwys nos Fawrth Tachwedd 29ain

Noson i'r dyddiadur! Bydd aelodau'r eglwys yn cynnal Noson Bingo yn Neuadd Talgai, pentref Llandygai am 7 o'r gloch yr hwyr Tachwedd 29ain. Derbynnir unrhyw wobrau/gyfraniadau yn ddiolchgar iawn o flaen llaw gan Nerys neu Ann. Croeso cynnes i bawb i fwynhau noson o hwyl gyda phaned o de a bisgedi hanner amser! Dewch yn llw!

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai

Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y. b. Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

gair neu ddau

John Pritchard

W.R.

Mae gan lawer iawn o ddarllenwyr *Llais Ogwan* eu hatgofion melyn am y Parchg William Richard Williams (neu W.R.), a fu farw ddydd Sul, Medi 4, gan iddo wasanaethu yn Arfon am flynyddodd, yn weinidog da i Iesu Grist yn Y Felinheli, Bethel, Caeathro a'r Bontnewydd. Bu hefyd yn arwain oedfaon ac yn pregethu mewn llawer o gapeli yn y dyffryn hwn.

Roedd Wil yn gymeriad annwyl ac addfwyn, ffeind a ffraeth, caredig a chymwynasgar, gofalus a gostyngedig. Mor felys bob amser oedd ei gwmni, ac mor werthfawr i mi fu ei gefnogaeth a'i gyngor. Hyd y gallaf gofio, ni fûm erioed yn ei gwmni heb chwerthin am rywbeth neu'i gilydd. Dau beth a nodweddai ei hwyl i mi oedd na fyddai byth yn gwneud hwyl am ben pobl eraill, a'i fod bob amser mor barod i chwerthin am ei ben ei hun. Mae gen i atgofion hyfryd amdano ac am lond trol o hwyl a gafwyd yn ei gwmni.

Nid gŵr ei stydi a'i bulpud yn unig oedd Wil, fel y gŵyr pawb a'i hadnabu. Dyn pobl oedd o. Roedd o'n mwynhau cwmni pobl, a phobl yn mwynhau ei gwmni yntau. A dyn pethau oedd o; gallai drin ceir a garddio; gallai ffermio a labro; roedd wrth ei fodd yn carafanio, ac yn ei elfen yn cyflawni pob math o dasgau â'i law.

Ond dyn ei Feibl oedd o hefyd. Ac fe gadarnhawyd hynny i mi gan ddau beth syml iawn. Yn gyntaf, yr ôl traul mawr ar ei Feibl a ddangosai'n glir ei fod wedi bodio'i dudalennau a'i ddarllen yn gyson ar hyd y blynyddoedd. Ac yn ail, y nodyn *post-it* bach melyn a gafwyd yn ei Feibl. Doedd a wnelo'r nodyn hwnnw ddim â'r un o adnodau'r Beibl. Doedd a wnelo fo ddim oll â'r Beibl na'r Ffydd ar un ystyr. 'Angen chargio batri'r garafán'; dyna'r cyfan oedd ar y *post-it*. Gellid meddwl mai'r Beibl fyddai'r lle dwythfa a'r lle lleiaf addas i nodyn o'r fath.

Ond i Wil, roedd ei Feibl yn lle amlwg i adael neges fach iddo'i hunan i'w atgoffa am y batri. Lle byddwch chi'n gadael nodyn i'ch atgoffa fod rhaid gwneud hyn ac arall? Ar ddrws y *fridge*? Ar y bwrdd bwyd? Wrth y drws ffrynt? I ddyn a fyddai'n darllen ei Feibl bob dydd, lle gwell nag yn y Beibl hwnnw i adael, gyda'r nos o bosibl, neges bwysig y byddai'n sicr o'i gweld y bore wedyn?

Diolch i Dduw am gael ei gwmni; y dyn da, difyr, doniol a defosiynol hwn.

John Pritchard

Caffi Coed y Brenin

BORE COFFI
NSPCC

Sadwrn, 12 Tachwedd
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Festri Carmel
Llanllechid

Te Bach

Pnawn Llun, 24 Hydref
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

Sefydliad y Merched Llandygai

Croesawodd llywydd mis Medi, Beti Morris, bawb yn ôl ar ôl gwyliu'r haf. Anfonwyd ein cofion at Val Withers, sydd yn bur wael ers amser hir. Dymunwyd yn dda i Mrs. Olive Davies, sydd wedi symud yn ôl i fyw i'r De.

Darllenodd Sheila gofnodion mis Mehefin a daeth sawl ymddiheuriad am absenoldeb i law. Yna darllenwyd gynnwys lythyr y Ffederasiwn a nodwyd a thrafodwyd ei gynnwys.

Bydd nifer o aelodau'r gangen yn mynd i ginio'r Ffederasiwn yn Llandudno ym mis Hydref.

Cyflwynodd y llywydd siaradwr y noson sef Gareth Roberts o Fenter Fachwen. 'Roedd cryn edrych ymlaen at ei sgwrs gan ei fod mor ddiddorol a bywiog. Siaradodd am hen blasdy oedd ar un adeg ym Mhentir, sef "Plas Pentir", a'i hanes cynnar. Yna aeth a ni i'r bydysawd - un arall o'i ddiddordebau mawr. Mae ei wybodaeth yn rhyfeddol, a diolchodd Eira iddo am noson werth chweil.

Enillwyd y raffl gan Gareth.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar bnawn Mercher, 26 Hydref am 2.30. Dalier sylw mai yn y pnawn y byddwn yn cyfarfod tan fis Ebrill.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Gwaeledd

Mae Mrs Elizabeth Hughes 20 Braichmelyn yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da iddi.

Rydym yn meddwl am bawb sydd heb fod yn dda ac yn anfon ein cofion atynt i gyd.

Profedigaeth

Collodd Gareth Hughes, 19 Gernant ei gefnder yn Ynys Môn. Bu'n byw yn Gernant ac yn y Gerlan ar un adeg a chydymdeimlwn â Gareth a'r teulu oll.

Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen

Dr John Llewelyn Williams, Meifod, Ffordd Bangor yn rhoi gwybodaeth am Wefan Hanes Dyffryn Ogwen. Mae'r wefan hon yn llawn gwybodaeth fanwl a diddorol am sawl agwedd o hanes y fro. Ewch i mewn i hanesdyffrynogwen.wordpress.com

Mae'n flwyddyn ers sefydlu'r wefan uchod, ac yn y cyfamser ymddangosodd pedwar deg adroddiad, oll yn cofnodi agweddau ar hanes cyfoethog dyffryn nad ydym bob amser yn llawn werthfawrogol o'i dreftadaeth. Hyd yma ceir erthyglau sy'n trafod cyfnod cynhanes yr ardal hyd at y presennol gan deithio drwy'r canol oesoedd a chyfnod diwydiannu'r ardal. Mae erthyglau yno am frwydrau, am gapeli a chamlesi, tai bonedd a thai bach! Mae dilynwy'r wefan bellach wedi cyrraedd Awstralia, yr Unol Daleithiau, Canada a rhai gwledydd yn Ewrop. I roi cip ichi ar yr hyn sydd ar y wefan dyma gyhoeddi un adroddiad yn y Llais a fydd yn ymddangos maes o law ar y wefan. Mwynhewch y darllen a rhyfeddwch at amrywiaeth ddiddorol hanes a chynhanes ein bro.

Cwt Dafydd Ross

Nid Llanberis yw'r unig bentref yng Nghymru a all ymfalchïo fod adeilad ar gopa mynydd yn rhan o'i dreftadaeth. Mae gan Ddyffryn Ogwen hefyd adeilad ar ben un o'i chopau. Eithr nid yw'r adeilad hanner mor grand â'r adeilad sydd ar gopa'r Wyddfa ac nid yw ychwaith yn cynnig paned o de i'r fforddion, na thrên i'w gyrraedd. Ar gopa Moel Grach, 976 metr uwch arwynebedd y môr, lleolir cwt Dafydd Ross sy'n adeilad isel, trwsogl a garw ei olwg a adeiladwyd o gerrig bras i ymdoddi i bentwr mawr o feini. Mae cyrraedd ato, yn arbennig am y tro cyntaf, yn union fel camu i fyd hud a lledrith y tylwyth teg neu'r Mabinogi, yn arbennig felly os oes niwlen ysgafn yn ei led guddio. Mae gan y cwt do sinc isel â meini mawr wedi'u pentyrru drosto, ac islaw'r bargod mae un drws yn arwain i gell dywyll a oleuir gan olau egwan o un ffenestr ar y talcen. Ond mewn

stormydd gwynt a glaw'r gaeaf neu heulwen grasboeth canol haf saif y cwt, sydd daflad carreg, fwy neu lai, o grib Carnedd Llywelyn ail fynydd uchaf Cymru, yn llecyn delfrydol i'w gyrraedd.

Lloches bugeiliaid

Defnyddir Cwt Dafydd Ross heddiw fel caban ymochel i fforddion y mynydd fel y mae aysgrif ar un o'r meini gerllaw'r drws yn ei nodi, ond yn wreiddiol fe'i hadeiladwyd fel man lle gallai bugeiliaid y fro lochesu. Adroddir mai bugail oedd Dafydd Ross, Sgotyn o ran ei fagwraeth, a gyflogwyd yn fugail yn ardal Ro Wen a Chwm Eigiau yn ystod cyfnod cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd nifer o'i gymheiriaid o'r Alban yn gweithio fel bugeiliaid ar stadau mawr bröydd Eryri. Ef a adeiladodd y cwt yn ôl tystiolaeth tafod leferydd. Yr oedd Cwt Dafydd Ross yn gyrchfan i fugeiliaid mynydd Llanllechid yn arbennig pan fyddid yn hel defaid cynefinoedd Braich Cwm Bychan a Charreg Gath ym mhellafoedd Cwm Caseg. Y cynllun oedd cyrraedd y cwt yn fuan wedi hanner nos ac ymochel yno hyd at doriad gwawr cyn dechrau hel yn gyflym a glân i lawr y gelltydd. Wedi cenedlaethau o ddefnydd aeth y cwt yn adfail hyd nes y penderfynodd nifer fechan o fugeiliaid a cherddwyr lleol, er mawr glod iddynt, ei atgyweirio i'w gyflwr presennol ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf. Nid cwt Dafydd Ross yw'r unig loches o'i bath ar fynydd Llanllechid Ar gopa'r Bera safai cwt Jacob a fyddai'n gyrchfan i fugeiliaid ardal Aber a Llanfairfechan yn bennaf, ond a ddefnyddid o bryd i'w gilydd gan fugeiliaid Dyffryn Ogwen yn ogystal. Nid yw hanes y cwt hwn mor llewyrchus â chwt Dafydd Ross a bellach mae'n furddun er iddo roi degawdau o wasanaeth i hen fugeiliaid ucheldir y Carneddau. Gwybodaeth gan Dafydd Jones, Fferm Coetmor, Bethesda ac Wyn Roberts, Bryn Difyr, Tregarth.



Cwt Dafydd Ross - delwedd drwy ganiatâd archif lluniau Ifor Williams gynt o Goetmor

Côr y Penrhyn

Ymweliad â Thre'r Sosban

Ar ôl seibiant dros wyliau Mis Awst ail afaelodd aelodau'r côr yn eu gwaith gyda chyngherddau ym Mhwlheli, Llandudno, Henllys a Neuadd John Morris Jones, Bangor. Er hynny, uchafbwynt Mis Medi oedd ail ymweliad â thref Llanelli ar wahoddiad côr meibion enwog y dref honno. Canodd y côr yng Nghanolfan Tinopolis yn y Ffwrnes ac unwaith yn rhagor derbyniodd ein rhaglen gymeradwyaeth twymgalon a byddarol gan y gynulleidfa niferus.

Fe gofia'r darllenwyr bod Côr Meibion tre'r sosban wedi bod yn canu gyda ni yn Theatr Bryn Terfel beth amser yn ôl a gwahoddiad yn ôl i'r de oedd canlyniad y berthynas a sefydlwyd gyda nhw bryd hynny a'r unawdydd gwadd ganddynt eleni oedd Adele O'Neill.

Wrth siarad gyda nifer o'r gynulleidfa wedi'r cyngerdd clywyd amryw o sylwadau megis, "dyna raglen ddiddorol"; ac "mae 'na ffresni ac egni yn rhaglen Côr y Penrhyn." Dywedodd ysgrifennydd Côr Llanelli, " Mae bois y Penrhyn yn dod â dimensiwn newydd i ganu corau meibion," meddai, "ac anaml y gwelir corau sy'n ymadael oddi wrth y rhesi statig ac yn canu ynghanol y gynulleidfa fel y gwnaeth y Penrhyn gyda Nkosi Sikelele a Tshotolozza."

Apelio at drwch y bobl

Mynnai eraill bod rhaglen amrywiol y côr yn hoelio sylw hefyd gyda dewis yr arweinydd o ganeuon o Hwngari, America, Affrica, heb sôn am Gymru a Lloegr, yn

dangos dychymyg a dawn i adnabod yr hyn sy'n apelio i leygwyr ac i gerddorion profiadol.

Gwerthodd Côr y Penrhyn y nifer uchaf o gryno ddisgiau a gafwyd erioed yn y cyngerdd hwn. Yn ychwanegol mae'r ffaith bod Henllys wedi gwahodd y côr i gymryd mwy o gyngherddau yn y lle hwnnw'n profi bod Côr y Penrhyn yn "gwneud rhywbeth yn iawn" chwedl Alun Davies, ysgrifennydd cynorthwyol y côr. Meddai trefnydd cyngherddau Henllys, " Chi yw'r côr sy'n cael y croeso cynhesaf o'r holl gorau sy'n dod i Henllys" meddai, "ac felly hoffem i chi ddod yma yn amlach nag unrhyw gôr arall.

Ategwyd y farn honno gan deulu o Swydd Dyfnaint sy'n amseru eu hymweliadau â Llandudno i gael clywed y côr yn canu yn Eglwys Sant Ioan. Os ewch chi ar wefan Tripadviser sy'n trafod Eglwys Sant John fe welwch rai o'r sylwadau canmoliaethus am y côr yn y fan honno.

Blas o raglen y côr

Gyda nifer o gyngherddau lleol o'n blaenau byddai'n fuddiol i'n darllenwyr gael gwybod am rai o brif gyngherddau'r côr am y misoedd nesaf.

Sant Ioan, Llandudno – 13 Hydref gyda Huw Llewelyn y tenor + nifer o ddyddiadau eraill yno ac yn **Henllys**

Rhaghysbysiad
Beverley, Swydd Efrog – 20 Mai 2017
Feniw Cymru, Llandudno - 17 Meh. 2017
Cyngerdd Mawr arall gyda Band byd-enwog y Black Dyke.

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
Gwefan: douglasarmsbethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATŷ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

Gwahoddiad i dendro

Am waith llenwi biniau halen
Bydd rhaid i'r contractwr fod yn gymwys o dan y Ddeddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991

Anfonwch eich cynnig at:
Donna Watts, Clerc y Cyngor
Swyddfa Partneriaeth Ogwen,
26 Stryd Fawr, Bethesda
Gwynedd LL57 3AE
cyngorbethesda@ogwen.org

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw William Turner sy'n fyfyrwr Cemeg yn Huddersfield a Bangor.

Be' ydy dy enw llawn? – William David Turner
Oed? – 21
Gwaith? - Myfyriwr Cemeg (ym mhrifysgol Huddersfield) yn gweithio yn adran Cemeg prifysgol Bangor am flwyddyn.
Lle wyt ti'n byw? - Mynydd Llandegai.
Un o le wyt ti'n wreiddiol? - Bethesda.
Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau? Tal, Tywyll a Golygus.
Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr? Chwe blynedd. Ers 2010.

Pa lais wyt ti? Ail Fas.
Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? Cael gwahoddiad i ymuno gan ein harweinydd, Owain Arwel Davies ar ôl canu yng nghorau ysgol Tryfan.
Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? Fy hoff ganeuon yw 'Pererin wyf' a'r 'Greadigaeth'.
Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Ella Fitzgerald neu'r band 'The Cat Empire' o Awstralia.
Beth ydy dy farn di am ganu pop? Gwell gen i jas neu roc.
Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr? Yr awyrgylch yn canu yng nghanol y stadiwm mileniwm cyn gêm rygbi.
Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr? Dwi'n hoffi chwarae hoci,

cerdded mynyddoedd a bwyd da.
Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? Handstand! Efallai recordio mwy o ganeuon neu berfformio yn rhywle arall enwog. Mi oedd o'n fraint i ganu yng Nghadeirlan Genedlaethol America yn Washington D.C.



Cyfarfod Annisgwyl â Phobl o Batagonia

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol bu Gwen Ellis, Pant y Gwair yn teithio ar y trên o Gaerdydd ac yn eistedd ar bwys merched oedd yn siarad Sbaeneg. Doedd hi ddim yn anodd dyfalu mai merched o'r Wladfa oeddynt a dyma ddechrau sgwsio efo nhw yn Gymraeg. Syndod a phleser i Gwen oedd darganfod fod un ohonynt, Griselda Agesta yn awyddus i ymweld â hen gartref ei theulu, sef Bryn Haul, Llanllechid!

Dyma ddechrau cyfnod o chwarae ditectif. Aflwyddiannus fu ymgais Gwen i ddod o hyd i Fryn Haul ond gyda chymorth Lynda Pritchard a Chlwb Hanes Rachub, darganfuwyd mai Bryn Hall oedd y cartref lle'r oedd hen daid Griselda yn yrrwr coetsus a'i hen nain yn olchwraig. Ymfudodd y teulu ar ddiwedd y 19g a bu eu mab, James Peter Jones, taid Griselda, yn fardd adnabyddus yn y Wladfa. Bu'n barddoni yn y Gymraeg ac roedd hyn yn ysbrydoliaeth i Griselda i ddod i Gymru i fynychu gwersi gloywi iaith.

Ddydd Gwener, Medi 16, aeth Griselda, Gwen ac Wyn i Fryn Hall. Cawsant groeso hyfryd gan Matt a chael crwydro drwy'r cartref. Gyda llaw mae Matt ac Esther yn darparu gwely a brecwast swmpus ym Mryn Hall. Roedd ymweld â chartref ei theulu yn brofiad emosiynol a hyfryd i Griselda. Aethom hefyd i Rachub i sgwsio gyda Lynda ac Eurwyn, a gafodd ei fagu ym Mryn Hall a darganfod fod perthnasau Patagonia Lynda yn byw drws nesa i deulu Griselda!

Antur ddifyr iawn i Gwen a gychwynnodd efo sgws ar drên.



Griselda Agesta o Batagonia gyda Gwen Ellis.

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Ysbyty

Mae Logan, 16. Cae Gwigin, wedi cael triniaeth i'w lygad yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl, ac yn disgwyl triniaeth bellach, pan ddaw'r alwad. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Jean Hughes, 3 Talybont, sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar ac yn disgwyl mynd i dderbyn llawdriniaeth yn y dyfodol agos.

Profedigaeth

Ar Fedi'r 27ain, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Roy Moore, gŵr Alwenna, a thad a thaid hoff i'w deulu. Dyn tawel, ond hwyliog a pharod ei gymwynas oedd Roy. Roedd ganddo gylch mawr o ffrindiau a chydabod o amryw byd o gefndiroedd, ac yr oedd ei ddiddordebau yn rhai eang iawn.

Gedy fwllch mawr ar ei ôl ar aelwyd 1, Lôn Ddŵr. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Alwenna a'r teulu oll!

Genedigaeth

Ar ddydd Iau, 29ain o Fedi, ganwyd mab, Charlie, i Lorna ac Anthony, Bro Emrys; Mae Thelma a Ron Williams yn falch iawn o'u gor-ŵyr cyntaf.

Eglwys St. Cross

Ar y Sul y deunawfed o Fedi, cynhaliwyd ein Diolchgarwch gydag Eglwys St Mair Tregarth a St Tegai yn ymuno â ni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer, y Parchedig John Mathews, a thrafodwyd y bregeth gan y Barchedig Madeline Brady. Geraint Gill oedd yn cyfeilio.

Trefnwyd lluniaeth ysgafn yn dilyn y gwasanaeth. Diolch i bawb am eu cymorth a, hefyd, am addurno'r Eglwys mor hardd.

Ar y bore Mawrth cyntaf o fis Hydref, cynhaliwyd Bore Coffi at y McMillan yn yr Ysgoldy. Daeth nifer dda i gefnogi'r achlysur.

Trefnwyd y bore gan Cora a Howard Hutchinson, Sheila Owen a Rita Thomas, a hoffent ddiolch i bawb am y danteithion a'r rhoddion at yr achos da, ac am eu cefnogi ar y diwrnod.

Da deall bod Gracie Griffiths wedi gwella ac yn ddigon da, erbyn hyn,

i adael Ysbyty Gwynedd. Ar hyn o bryd, mae hi'n setlo'n dda yng Nghartref Nyrsio Sant Tysilio yn Llanfairpwll.

Llongyfarchiadau i Claire ac Andy Butterfield, Penmaenmawr, ar enedigaeth eu mab, Asa. Da deall bod y bychan, a'i fam, yn dod yn eu blaenau yn foddhaol. Mae Keith ac Yvonne Davies, Meadowsides, Dolhelyg, wedi gwirioni gyda'u hŵyr cyntaf.

CAPEL BETHLEHEM

Oedfaon y Sul
Hydref 23: Gweinidog; Hydref 30: Parchg. W.H. Pritchard; Tachwedd 6: Parchg. Pryderi Llwyd Jones; Tachwedd 13: Gweinidog; Tachwedd 20: Parchg. Cledwyn Williams. Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Y Diolchgarwch
Ar brynhawn Sul, 9 Hydref, cynhaliwyd ein hoedfa ddiolchgarwch. Oedfa Deuluol oedd hi gyda nifer o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Braf oedd gweld nifer dda o deuluoedd y plant yn bresennol ynghyd â chyfeillion ac aelodau. Diolch i Anti Barbara am drefnu'r oedfa ac i athrawon am eu cymorth. Diolch hefyd i'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard, am ei gyfraniad gwerthfawr i'r oedfa.
Roedd paned ar gael i bawb yn y festri ar y diwedd. Diolch i'r chwiorydd!

Apêl Banc Bwyd
Cafwyd ymateb gwych i'r Apêl uchod ar ddiwrnod ein Diolchgarwch. Os oes rhywun heb gael cyfle i gyfrannu bwydydd tuag at yr Apêl, byddwn yn derbyn rhoddion hyd at ddiwedd mis Hydref.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i William Roberts. Fferm Cochwillan, ar ddatlhu pen-blwydd arbennig ar 7 Hydref.

Bwrlwm Bethlehem
Llongyfarchwyd Llew ac Enfys Jones ar ddatlhu 68 mlynedd o fywyd priodasol. Mae aelodau'r Bwrlwm yn ddiolchgar iawn i Enfys am ddod â'r cacennau! Braf oedd medru croesawu Erwan Teifi, 7 wythnos oed, a'i chwaer fawr, Sisial, a'u mam, sef Laura, yr holl ffordd o Bontyberem, ond gynt o Ddolhelyg!

Dach chi'n nabod rhain?



Merched Capel Shiloh, Tregarth wedi bod yn glanhau'r capel yn 1971. (Llun gan Y Parchg. Hugh Rowlands.)

O'r chwith i'r dde: Gracie Wilson, Bronwen Davies, Sarah Elin Williams, Barbara Jones, Dorothy Williams, Mrs Jones, Ffordd Tanrhiw, Bronwen Rowlands, Audrey Davies, Edith Hughes, Kate Jones, Mabel Jones.

Diolch i Mrs Bronwen Davies, Penlon, Porthaethwy, am anfon y llun i'r Llais. (Gol.)

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!
Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.
33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

Llandygái – cymuned hanesyddol

Mae'r gymuned hon yn ymestyn yr holl ffordd o aber Afon Ogwen ac ar hyd glan orllewinol yr afon hyd at gopa'r Glyder Fawr. Mae'n cynnwys pentrefi Llandygái, Tregarth, Dob a Sling ac ym mhen uchaf yr ardal mae Llyn Idwal a Chwm Idwal sy'n gynefinoedd botanegol o bwys. Mae'r Twll Du a chreigiau Idwal yn cynnig her i ddringwyr. Ar y gwastatir darganfuwyd olion dau hengor (safle mawr crwn wedi'i amgylchynu gan ffos a chlawdd allanol) o'r Oes Neolithig ac mae'n un o'r safleoedd mwyaf o'i fath yng Nghymru. Yn Eglwys Sant Tegai gorwedd gweddillion John Williams, (John Iorc) 1582-1650, Archesgob Caerefrog.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART **CAR CARE CENTRE**

Ysgol Llanllechid

Hwyl Fawr a Diolch

Anrhegwyd Ms Fiona Sherlock yn neuadd yr ysgol gan ddweud diolch wrthi am ei gwaith da yn arwain y Clwb ar ôl Ysgol a'r Clwb Gwyliau. Diolch Fiona a phob dymuniad da i'r dyfodol yn Nhafarn Llangollen.

Diolch am y Ffair

Roedd Ffair Hydref yr ysgol yn llwyddiant ysgubol o'r dechrau i'r diwedd er gwaethaf y ffaith fod y gwynt yn chwyrlio! Llongyfarchiadau i Ariel Lichtenstein a Chelsey Morris ar ymddangos ar raglen Heno S4C yn hysbysebu ein Ffair mewn ffordd mor glir a llawen! Diolch i bawb a wnaeth gynorthwyo mewn unrhyw ffordd, ac yn enwedig felly ein pwyllgor gweithgar. Gwnaethpwyd elw o dros £1,300, sy'n swm anrhydeddus. Bydd yr arian yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cynorthwyo gyda'n teithiau addysgol i'r dyfodol. Mae'n braf gweld cefnogaeth gref gan bob un ohonoch a thrigolion yr ardal mor barod i helpu ein hysgol. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Coedwig Eithinog

Aeth disgyblion blwyddyn 6 ar hynt y bwystfilod bychan sydd yn byw yng Ngwarchodfa Eithinog, Bangor. Dan arweiniad Mr Ben Stammers cafwyd hyd i lawer o fwystfilod bychan e.e. y Tarian Bryf, Sboncyn y gwair, Llyffant y Sboncyn a phlanhigion amrywiol ee Gorfanhadlen a'r Pen galed. Roedd hyn yn wrthgyferbyniad i'r bwystfilod a ddarganfuwyd ar gaeau'r ysgol ar ddechrau'r gwaith ymchwil. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Stammers - sydd yn rhiant yn yr ysgol wrth gwrs, ac yn arbenigwr yn ei faes, sydd bob tro yn barod ei gymwynas a'i gyngor.

Tŷ Mawr Wybrnant

Aeth disgyblion blwyddyn 6 i Dŷ Mawr Wybrnant i ddysgu mwy am hanes a gwaith yr Esgob William Morgan. Ond yr hyn wnaeth y profiad yn unigryw oedd y ffaith eu bod wedi cael mwynhau'r hanes ar ffurf sioe gan yr actor Llion Williams. Bu'r disgyblion yn cyfrannu yn frwdfrydig i'r sioe gan gymryd rhannau blaenllaw ee yn actio fel Harri VIII ac Edmwnd Prys. Roedd ymateb bywiog y disgyblion yn dyst i'r ffaith fod Llion Williams wedi cyflwyno'r hanes mewn modd mor ddiddorol gan gynnwys canu a rapio ar y cyd! Ar ôl y sioe cawsant daith o amgylch cartref William Morgan gan ryfeddu at y Beiblau gwreiddiol oedd yn 500 oed. Taith gofiadwy, a da oedd clywed rhai o'r plant

yn gweiddi "George" wrth weld yr actor adnabyddus!

Taith y Llwybr Llechi

Aeth dosbarth Mrs Marian Jones ar daith ddiddorol yn ddiweddar gan ddilyn y llwybr llechi. Arweiniwyd y daith gan Anita Diamond, a chawsom gychwyn yn hen safle Chwarel Pantdreiniog lle cawsom wybod am y gwaith prysur oedd yn arfer bod yno yn ystod Oes Fictoria. Cafwyd sgysiau difyr gyda chyfeillion ar y ffordd, a chlywyd fel y cafodd un gŵr lleol ddamwain fawr, sef syrthio i waelod y twll anferth, pan oedd yn ddim ond deuddeg oed ! Yna, ymlwybro drwy fferm Cae Gymro, a'r Ffridd i Foel Faban, lle cafwyd gwneud gweithgareddau Celf difyr gyda'r llechi. Mae nifer fawr o chwareli bychain ar y Foel. Ymlaen wedyn i Chwarel Bryn gan ryfeddu at yr olygfa fendigedig ar hyd y ffordd. Roedd hi'n amser mynd adref erbyn i ni gyrraedd yn ôl yn yr ysgol, a phawb wedi blino'n lân! Diolch Anita am ddiwrnod gwerth chweil!

Diolch hefyd i Mrs Karen Williams am roi lluniau o Chwarel Pantdreiniog i ni ac am rannu ei hatgofion. Disgrifiodd Mrs Karen Williams y lle yn y saithdegau, pan oedd hi'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen a daeth y cyfan yn fyw i'n disgyblion.

Parchedig John Pritchard

Braint pob amser yw gwahodd y Parchedig John Pritchard i'n gwasanaethau boreol. Roedd y plant yn glustiau i gyd wrth ddysgu am y wyrth Troi'r Dŵr yn Win ac am sut i weddio. Rhoddwyd croeso hefyd i'r Parchedig Christina McCree o Eglwys Glan Ogwen.

Ymweliad gan yr Heddlu

Daeth PC Maldwyn Williams i'r ysgol i ddysgu'r plant am sut i ymddwyn yn gall a chyfrifol a sut i gadw'n ddiogel.

Ymweliad ag Amgueddfa Beatles, Lerpwl

Fel rhan o'r gwaith dosbarth ar y chwedegau aeth plant blwyddyn 5 ar ymweliad ag Amgueddfa Beatles yn Lerpwl. Yn gyntaf, teithiwyd ar hyd llwybr y Beatles gan glywed yr hanes ar ffonau clust pwrpasol. Roedd posib ymweld â'r Clwb Cavern a blasu bywyd yn y chwedegau drwy pob math o arteffactau e.e. piano wen John Lennon a gitâr Paul Mc Cartney. Cawsom gyfle i wneud gweithgareddau fel creu Celf Pop, gwisgo'n amryliw fel y Beatles, cyfansoddi ar biano llawr anferth a chanu caneuon fel

'Yellow Submarine' ac 'Octopus Garden in the sky'. I gloi'r diwrnod aethpwyd i'r Pier Head i wyllo ffilm Fab 4D. Dyma brofiad gwefreiddiol; nid yn unig oedd y cadeiriau yn symud ond roedd dwr yn chwistrellu arnom o'r tywyllwch! I goroni'r diwrnod cawsom ymlwybro ar hyd yr Afon Merswy gan wyllo'r cychod! Cyfle gwyh iawn i brofi bywyd yn y chwedegau!

Adnoddau am y Corff

Llawer o ddiolch i Mr Robert Hughes am gael benthg adnoddau arbennig ar gyfer disgyblion Bl. 2 a 3! Dyma Mathew ac Erin yn edrych ar ôl ein sgerbwd!



Stwff Straeon y Chwarel

Cofiwch am y noson 'Stwff a Straeon y Chwarel' a gynhelir yn Ysgol Llanllechid rhwng 6.30pm - 7.30pm ar Dachwedd 9fed, 2016. Noson ar y cyd â Chôr Meibion y Penrhyn yw hon. Rydym yn gwahodd unrhyw un o'r ardal i droi i mewn atom i drin a thrafod atgofion am y canlynol: Bywyd yn y cartref a'r chwarel Enwau lleoedd Dywediadau a llysenwau Traddodiadau ac arferion Cymdeithasu a hamddena Edrychwn ymlaen yn eiddgar at glywed eich straeon. Dewch i mewn atom am baned a sgwrs. Braint fydd cael rhoi rhai o'ch atgofion ar gof a chadw! Dyma beth o'r eirfa rydyn ni yn ei dysgu yn yr ysgol: bargan, clwt, rybelwr, swpar chwarel, crawan, gwythien, caniad corn, ponc, cwt tân, Jerry M, caban, cŷn, tun bwyd, ffustion, holhti a naddu.

Datblygu Maes Parcio i'r Gerlan

Cwmni Anelu

Diolch yn fawr i Mr Stephen Jones am arwain ein disgyblion hynaf ar deithiau cerdded o amgylch yr ardal leol. Pa ffordd well i'r plant ddod i adnabod eu cynefin a'u cymdogaeth. Diolch yn fawr.

Tatws Bryn - llysiau i bawb

Yng nghanol mis Medi aeth y dosbarth Derbyn i ymweld â Fferm Bryn Hafod-y-Wern, Llanllechid i weld sut mae Chris Jones yn tyfu llysiau o hadau. Mae pob math o lysiau ar gael yma - e.e. betys, broccoli, bresych, blodfresych, tatws, rwdins, corn melys a llu o rai eraill.. Diolch i Chris Jones am ei rodd o focs o lysiau i'r ysgol. Bur plant wrthi'n ddyfal yn gwneud cawl blasus allan ocr cyfan. Mae Chris yn gwerthu'r bocsys yma i drigolion yr ardal a phawb yn brolio pa mor ffres yw ei gynnyrch! Edrychwn ymlaen at yr ymweliad nesaf a diolch i chi am eich croeso! Ewch i wefan tatwsbryn@yahoo.com i gael gwybod mwy.

Mewn ymateb i geisiadau gan breswylwyr, mae Cyngor Cymuned Bethesda yn edrych ar botensial datblygu maes parcio yn y Gerlan. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol eisoes wedi ei wneud i ganfod safle a beth fydd costau tebygol adeiladu maes parcio. Ar yr 20fed o Hydref bydd Cyfarfod Cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Y Caban yn y Gerlan i drafod y cynlluniau. Mae holiadur hefyd yn cael ei ddosbarthu i bob tŷ yn Gerlan i gywain barn trigolion lleol ar y syniad.

Mae safle arfaethedig y maes parcio gyferbyn â chyffordd Ffordd Gerlan a Stryd Goronwy. Yn ddibynnol ar bryniant y tir, amcangyfrifir y byddai costau adeiladu'r maes parcio bron yn £200,000. Nid oes cyllid cyhoeddus ar gael i ariannu hyn a byddai angen edrych ar fenthg yr arian i ariannu'r costau adeiladu a datblygu cynllun busnes fyddai'n ad-dalu'r benthygiad. Lle i oddeutu 40 car fydd yn

y maes parcio newydd a bydd y Cyngor yn edrych ar fodelau sy'n cynnwys cynnig tocynnau parcio blynyddol i breswylwyr a/neu les tymor byr neu dymor hir. Mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar botensial cael peiriant talu ac arddangos yn y maes parcio i godi ffoedd parcio dyddiol ar y cerddwyr sy'n mynd i fyny'r Carneddau a'r mynyddoedd cyfagos.

Yn dilyn y cyfarfod ar yr 20fed o Hydref, bydd adroddiad ar ganfyddiadau'r arolwg a'r cyfarfod cyhoeddus yn cael ei lunio i helpu'r Cyngor i benderfynu ar y camau nesaf.

Beth yw eich barn?

Os nad oedd modd i chi fynychu'r cyfarfod cyhoeddus neu os nad ydych wedi cael cyfle i lenwi'r holiadur, mae croeso i chi gyflwyno sylwadau trwy drafod gyda'ch Cynghorydd Cymuned lleol neu e-bostio partneriaeth@ogwen.org neu ffonio 01248 602131.

Sefydliad y Merched Carneddi

Rhoddodd ein llywydd y croeso arferol i'r aelodau i gyd i'r cyfarfod serch fod ychydig o ymddiheuriadau am amryw o resymau. Yn anffodus mae dwy o'r aelodau yn dal i fod ddim yn rhy dda eu hiechyd, sef Glenys Jones a Gwenno Roberts. Mae ein cofion am wellhad buan yn mynd at y ddwy.

Mis diwethaf cawsom fore coffi llwyddiannus ac mae'r sefydliad yn diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y bore. Diolch hefyd i'r aelodau am drefnu a gweithredu ar y diwrnod. Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth a'r llythyr misol gan Rita a thrafodwyd ei gynnwys ac fe atgoffwyd yr aelodau am gyfarfod yr hydref yn ysgol Brynrefail Llanrug am 2 o'r gloch y pnawn. Y prif adloniant ar gyfer y cyfarfod fydd y delynores Gwenan Gibbard, ac fe geir adroddiad byr gan Age Cymru Gwynedd a Môn.

Ein gwŷr gwadd am y noson oedd Gwyn Thomas neu "Buck"

fel yr adnabyddir ef. Yn wreiddiol o'r Gerlan, a'i deulu wedi ffarmio yn Nhyddyn Du ers llawer o flynyddoedd. Yntau wedi gweithio ar amryw o ffermydd o gwmpas yr ardal cyn iddo benderfynu cymryd ffarm Blaen y Nant, Tyn y Maes, drosodd a'i gwneud yn ffarm organig.

Mae'n cadw gwartheg duon a defaid, ac yn tywys ymwelwyr o gwmpas y ffarm a'r cyffiniau. Hefyd, mae'r ymwelwyr yn gallu aros ar y fferm ac yn dod yn ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, sydd yn arwydd o'r croeso cynnes maent yn ei gael gan Gwyn. Yr oedd yn noson ddifyr iawn yn llawn hwyl a dawn Gwyn o ddweud ei hanes yn unigryw dros ben.

Diolchwyd i Gwyn am noson dda iawn gan Rita Bullock ac i'r merched am y baned. Yr oedd dwy raffl ac enillwyd un gan Myfanwy ar ail gan Rita.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Clwb Hanes Rachub

Mewn darlith i aelodau Clwb Hanes Rachub, Llanllechid a Chaerllwyngrydd honnodd Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa gynt) mai tîm Llechid Celts yng nghanol chwedegau'r ganrif ddiwethaf oedd y tîm pêl droed amatur gorau a wynebodd Llanberis. Arferai Arwel chwarae fel cefnwr de i'r Darans a gwelwyd brwydro cyson rhwng y ddau dîm ynghyd â Mountain Rangers am y gwobrau bob tymor. Roedd Arwel hefyd o'r farn mai asgellwr chwith Llechid, Brian Roberts (Corbri) oedd y chwaraewr gorau iddo wynebu erioed. Braf oedd cael croesawu Brian, Roger Owen ac Alan Hampshire Davies, tri aelod o'r tîm llwyddiannus i'r noson. Pleser hefyd oedd gweld Meirion a Geraint, meibion Bob Jones (Royal) a'u gwragedd yno i wrando ar Arwel yn dweud mai fel tîm Bob yr adwaenid Llechid Celts ar lafar yn y cyfnod. Dywedodd bod Bob wedi bod yn weithgar iawn dros gyfnod o bymtheg mlynedd i godi safon pêl droed Llechid Celts. Cafwyd cyfle i roi croeso i Margaret, gwraig y diweddar Einion Owen a'u merch, Alison. "Sawl gwaith y clywais Emrys Owen, (Cochyn) yn gweiddi os oedd chwaraewr yn meiddio pasio Einion gyda'r

bel, GAD O I MI EINION, gyda'r canlyniadau anochel yn dilyn" meddai Arwel. Amlinellodd Arwel mai gêm â'r gwreiddiau o fewn y gymdeithas oedd pêl droed ac aeth ymlaen i son am rai o gymeriadau Llanberis a rhai o dimau eraill y gynghrair y daeth ef ar eu traws. Honnodd bod y gêm yn gyfrwng i adeiladu cyfeillgarwch ymysg chwaraewyr o wahanol glybiau, cyfeillgarwch sydd wedi parhau hyd heddiw mewn nifer fawr o achosion. Adroddodd am droeon trwstan gan ganolbwyntio ar ffraethineb a meddwl chwm rhai o'r chwaraewyr ar y pryd. Un stori a ddywedodd oedd bod llumanwr ifanc wedi cyrraedd cae Llanberis ac wedi codi asgwrn oddi ar y cae. 'I didn't know that this was the butchers's shop,' meddai'r llumanwr. Fel ergyd o wn dywedodd cymeriad o dîm Llanberis, 'No its not, it's the remains of last weeks' linesman.' Llauer o ddiolch i Arwel am noson o hel atgofion mewn ffordd hwyliog a doniol. Cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar y 26ain o Hydref, pan gawn y pleser o gwmni Mr Wyn Roberts Tanybwllch i sgwrsio am hen arferion diwrnod cneifio.



Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) ail o'r chwith gyda Brian Roberts, Roger Owen a Alan Hampshire Davies ar noson y ddarlith.



Marchnad Ogwen

Bydd dwy Farchnad ym mis Tachwedd! Bydd ein Marchnad arferol ar yr ail Sadwrn – sef y 12fed a'r llall ar nos Fercher, Tachwedd 23ain o 5 o'r gloch tan 8. Rydym yn falch iawn o gydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen i sicrhau fod y noson hon yn un gymunedol a gobeithio y bydd Stryd Fawr Bethesda yn un bwrlwm hapus braf! Cyfle i chwi wneud eich Siopa Nadolig - a chefnogi eich cymuned ar yr un pryd. Bydd y Boncathod yn ein diddanu ar y noson. Mae dwy stondin newydd wedi ymuno â'r Farchnad. Croeso mawr i Fecws Brain o Fynydd Llandygai sy'n gwerthu bara, ac i 'Blodyn' sy'n gwerthu te perlysieuol. Croeso Bethan a Hannah. Bydd Tom Simone yn ôl gyda ni ar y 12fed i dynnu lluniau o'r teulu. Ar Sadwrn Tachwedd 12fed, bydd Cronfa Goffa Tracy Smith ar y Stondin Elusen a Susan Jones yn gwerthu gemwaith ar y Stondin 'Un Tro'. Ym Marchnad Tachwedd

23ain, bydd Haf Thomas yn gwerthu ei chardiau ar y Stondin Elusen a Neville Hughes yn gwerthu ei jam cartref ar y Stondin 'Un Tro'. Cysylltwch â'r ysgrifennydd os ydych eisiau llogi un o'r Stondinau yma yn ystod 2017. Mae un neu ddwy wedi eu llogi yn barod. Mae'r rhai ohonoch sy'n dod a'r cerdyn glas - y 'cerdyn ffyddlondeb' - i'r Farchnad yn gyson yn cael cyfle i ennill taleb gwerth £50 i'w gwario ym Marchnad Rhagfyr neu Ionawr. Byddwn yn tynnu'r raffl ym Marchnad Tachwedd 23ain. Os ydych wedi bod yn y Farchnad am dri thro, wedi prynu, ac wedi cael stamp ar eich cerdyn glas, cewch banded am ddim yng nghaffi'r Neuadd. Byddwn ni wedyn yn cadw eich cerdyn ac yn ei roi yn yr het ar gyfer y raffl. COFIWCH roi eich ENW ar eich cerdyn! Cewch chwithau gerdyn newydd. Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar Facebook, Twitter ac ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk Croeso cynnes.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol!

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Profedigaeth

Ar Fedi 28, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Ilse Renee Ellis Jones, Fron Heulog, Tregarth yn 89 mlwydd oed. Brodor o Luxembourg oedd Renee a bu’n byw yn yr Almaen, ond roedd hi wedi cartrefu yma yng Nghymru ers blyneddau ac wedi dysgu ein hiaith yn rhugl. Cydymdeimlwn gyda’i phriod John, ei phlant Angharad, Rhodri a Catrin a’i ŵyr Gruff. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Hydref 6.

Genedigaeth

Ganed mab bach, sef Hari, i Viv a Jonathan Irvine, Cae Glas, 8 Tal y Cae, yn ystod Mis Awst a brawd bach hyfryd i Tomos. Mae Jonathan yn ddarlithydd yn y Ffrangeg ym Mhrifysgol Bangor ac yn frodor o’r Alban ond yn siaradwr arbennig o rugl yn y Gymraeg. Llongyfarchiadau i chi fel teulu.

Gwellhad

Bu Mrs Edith Hughes, Erw Faen, yn Ysbyty Gwynedd yn ystod wythnos olaf Mis Medi. Gobeithio eich bod yn well erbyn hyn Edith.

Mae nifer o drigolion y pentref heb fod yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Yn eu plith mae Buckley Wyn Jones, Cae Dderwen, Glyn Williams, Lynona a Wil Parry Williams, Encil. Anfonwn ein cofion atoch i gyd gan ddymuno gwellhad llwyr.

Beth am anfon gair am eraill yn y pentref sydd heb fod mewn cystal iechyd yn ddiweddar?

Priodas

Dydd Sul, Hydref 9 yn agos i Las Vegas, Nevada, bydd priodas Elizabeth Davies a Christopher Beers. Mae Elizabeth yn ferch i Gwyn a Rene Davies ac yn wyres i Olga a Haydn Davies, Yr Hen Berllan, Dob, Tregarth.

Mwynhewch eich taith fel teulu a phob dymuniad da i’r pâr priod ar gychwyn eu bywyd priodasol.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Fawrth, Hydref 4, yn Festri Capel Shiloh daeth nifer ardderchog o aelodau’r gangen ynghyd i wrando ar yr archaeolegydd, Rhys Mwyn, yn sôn am ei waith yn cloddio mewn gwahanol rannau o Gymru. Bu’n siarad am y gwaith mawr a wneir yn lleol i ganfod olion o’r oes o’r blaen er mwyn dysgu am ein cyndeidiau ac am eu ffordd o fyw. Mae’r gwaith yn galed ac yn fudur a hynny ymhob tywydd, haf a gaeaf. Weithiau deuir o hyd i berlau o’r gorffennol a thrwy’r darganfyddiadau a wneir gellir olrhain sut roedd pobol yn adeiladu eu tai, eu caerau a’u pentrefi. Diolchwyd i Rhys am agor ein llygaid i waith, yn aml a wneir yn dawel, ond gwaith eithriadol o bwysig. Anwen, Olwen a Myfanwy oedd yn paratoi’r baned a diolchwyd gan Gwenda. Eirwen enillodd y raffl a Iona Rhys enillodd gystadleuaeth y noson gyda’r llechen gerfiedig y daeth o hyd iddi yn yr ardd ym Mynydd Llandygai.

Margaret oedd yn llywyddu ac estynnodd groeso i’r siaradwr a ffrindiau o gangen Rhiwlas oedd wedi ymuno â ni. Braf iawn hefyd oedd cael y criw o Fethesda i ymuno gyda ni unwaith eto.

Cydymdeimlwyd â theulu Renee Ellis Jones, Fron Heulog fu farw yn ystod yr wythnos ac a fu’n aelod ffyddlon o’r gangen. Anfonwyd cyfarchion at yr aelodau oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Bydd cyfarfod nesa y gangen ar Nos Lun, Tachwedd 7, pan ddaw Susan Peters o Gaernarfon i ddangos sut i baratoi trefniadau blodau at y Dolig. Croeso cynnes iawn i’r aelodau ac i aelodau newydd.

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaethau am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol.
16 Hydref - Oedfa Deulu y Diolchgarwch am 10.30
17 Hydref - (Nos Lun) Pregeth



y Diolchgarwch - Philip Barnett am 6 o’r gloch
23 Hydref - Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
30 Hydref - Glyn Owen, Llanwnda
6 Tachwedd - Philip Barnett
13 Tachwedd - Geraint Roberts, Porthaethwy
20 Tachwedd - Trefniant Lleol

Gwellhad buan i aelod hynaf Capel Shiloh, sef Mrs Edith Hughes a ddathlodd ei phen-blwydd yn 95 yn ddiweddar ac sydd yn gwella wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Braf iawn gweld Gwen Jones, Bangor yn yr oedfa unwaith eto wedi iddi hithau gael llawdriniaeth yn yr ysbyty

Bydd D. Wyn Williams, ein horganydd, yn mynd am lawdriniaeth i Ysbyty Gwynedd yn y dyfodol agos a dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

Pen-blwydd hapus hefyd i un o’r blaenoriaid, sef J.O Roberts, Allt Penbryn a ddathlodd ei ben-blwydd yn 91 ar ddiwedd Mis Medi.

Pob dymuniad da i Tomos Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae sydd newydd gychwyn ar ei gwrs Gradd ym Mhrifysgol Bangor ym Mis Medi. Bu Tomos yn un o aelodau ffyddlonaf y gwasanaethau pobol ifanc a diolchwn iddo am ei barodrwydd i gyfrannu i’r gwasanaethau.

Eglwys y Santes Fair Gwasanaethau
23 Hydref - Cymun Bendigaid
30 Hydref - Dim Gwasanaeth

Ymddeol
Ar ddiwedd Mis Medi daeth cyfnod i ben i D. Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, pan ymddeolodd o fod yn organydd yn yr Amlosgfa ym Mangor. Bu Wyn yn gwneud y gwaith ers bron i bum mlynedd ar hugain ac fe ddiolchwn iddo am ei hir wasanaeth ac am gyflwyno cerddoriaeth hyfryd ar adegau o dristwch yn ein hanes fel ardal. Diolch Wyn a mwynhewch y seibiant haeddiannol.

- pererindod i Ffynnon Gwenffrewi.
6 Tachwedd - Boreol Weddi
13 Tachwedd - Sul y Cofio
20 Tachwedd - Boreol Weddi
27 Tachwedd - Cymun Bendigaid

Pob gwasanaeth am 9.30 y bore. Clwb Cant Mis Medi

1. Maldwyn Morris (77)
2. Sulwen Roberts (21)
3. Tim Jones Griffith (47)

Dydd Sul Medi 11 bedyddiwyd Lili Wyn, merch Nia a Garry Page ac wyres i Rhian a Tegryd Hughes. Braf iawn oedd gweld cynifer yn y Gwasanaethau Diolchgarwch ac fe ymunodd cynulleidfaoedd Sant Tegai a Sant Cross â ni.

Cynhelir te bach ar ddydd Mawrth Hydref 25 am 2 y pawns ac ar Hydref 30 mae eglwysi Bro Ogwen yn mynd ar bererindod i Ffynnon Gwenffrewi ac Abaty Dinas Basing. Mae’r holl fanylion ar gael yn yr eglwysi.

Clwb 100 Canolfan Tregarth
Mis Gorffennaf
50 Dafydd Vaughan Jones £15
39 Anna Jones £10
10 Rhys Llwyd £5

Mis Awst
17 Bessie Buckley £15
9 Sara Oliver £10
35 Tudor Jones £5

Mis Medi
37 Angharad Williams £15
9 Sara Oliver £10
41 Goronwy Roberts £5

Ysgol Dyffryn Ogwen



Y 76 disgybl a gychwynnodd ym Mlwyddyn 7 eleni

Blwyddyn 7

Dyma 76 disgybl sydd wedi cychwyn ym mlwyddyn 7 eleni. Maent yn dod o wyth o ysgolion cynradd gwahanol ac wedi setlo yn arbennig o dda erbyn hyn.

Cyfarfod Gwobrwyo

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 16. Mae'r cyfarfod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc. Ystyrir cyraeddiadau academiaidd, gwaith allgyrsiol yn ogystal â phresenoldeb ac ymdrech gyda'u gwaith ysgol.

Y gwr gwâdd eleni oedd Mr Garem Jackson, swyddog addysg Gwynedd a chyn-ddirprwy bennaeth Ysgol Penybryn.

Yr oedd yn braf iawn hefyd cael croesawu rhai o benaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch. Wedi'r cyfan, mae llwyddiant y disgyblion yn gymaint o waith yr ysgolion cynradd ac ydyw y o'n gwaith ninnau yn yr uwchradd.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais dyddiau yma ar bresenoldeb da, gan fod llawer o dystiolaeth fod disgyblion gyda phresenoldeb da yn llwyddo'n llawer gwell na'r rhai sy'n colli dyddiau yma ac acw - ac nid yw hynny'n syndod wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn gwobrwyo 37 disgybl am bresenoldeb llawn o 100%.

Y pum disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Martha Evans, Owain Morgan, Gwenllian Owen, Elin Rowlands ac Elen Wyn. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Elin Cain, Cai Dickinson ac Alys Haf.

Enillwyr Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni oedd Alys Haf, Elin Cain a Mari Davies. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Cymru.

Enillwyr Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr oedd Cai Dickinson. Cyflwynir y wobwr yma i ddisgyblion sy'n bwriadu parhau gyda'u hastudiaethau ym myd celf neu mewn crefft arbennig. Roedd gwaith Celf Cai yn wych ac enillodd radd A yn y pwnc. Mae bellach yn dilyn cwrs sylfaen Celf yng Ngholeg Menai.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Elis Evans, Maija Giddings, Gwilym Gray, Awel Griffiths, Jack Hipkiss Hughes, Sophie Jeffreys, Elin Owen a Luned Roberts

Diolch yn arbennig eleni i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddau ddisgybl o bob blwyddyn a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Yr enillwyr yma oedd Dai Ifor Evans-Jones, Gwen Williams, Ellie Jones, Guto Whitehead, Ryan Pople, Megan Williams, Joshua Heaton ac Efa Williams.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw

Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd David Florence, sydd yn bencampwr cenedlaethol am focsio.

Elan Gilford oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobwr a gyflwynir gan y Prifathro i ddisgybl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol. Mae Elan yn treulio oriau ac oriau yn gwirfoddoli i hyfforddi disgyblion eraill, yma yn yr ysgol ac yn ei chartref ar Ynys Môn, a hynny er gwaethaf iddi golli ei chlyw ers yn fychan. Enillodd Elan wobwr gwirfoddolwr y flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon BBC Cymru llynedd.

Gwobr Dug Caeredin

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae criw o fechgyn blwyddyn 11 wedi bod yn brysur iawn yn ennill Gwobr Efydd Dug Caeredin. I gyrraedd y nôd bu Leon Griffith, Dewi Moses-Roberts, Shaun Roberts a Fhinn O'Doherty yn helpu yn y gymuned gyda nifer o brosiectau i wella'r amgylchedd, dysgu sgiliau newydd fel adeiladwaith, cymryd rhan mewn cyrsiau awyr agored a cherdded 16 milltir gan wersylla am noson a chario popeth roedd eisiau arnynt ar eu cefnau.

Y Llyfrgell

Bu nifer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn Neuadd Ogwen yn gweld ffilm 'Y Llyfrgell', addasiad o nofel Fflur Dafydd o'r un teitl. Diolchwn i Dilwyn Llwyd yn Neuadd Ogwen am wneud y cyfan yn bosibl a bu'n brofiad unigryw.



Y disgyblion a dderbyniodd y wobwr perfformiad gorau ym Mlwyddyn 7

Awyr Dywyll Eryri

Daeth Angharad Harris, Swyddog Addysg Parc Cenedlaethol Eryri i roi cyflwyniad i flwyddyn 7 am waith y Parc a chynlluniau’n ymwneud â Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri. Bydd yr ymweliad hwn yn hynod werthfawr iddynt wrth fynd ati i astudio gwaith y Parc yn eu gwersi Cymraeg. Diolch i Angharad am ei chyflwyniad difyr.

Bardd Cenedlaethol Cymru

Ddydd Mercher yr 28ain o Fedi, daeth y Prifardd a Bardd Cenedlaethol Cymru Ifor ap Glyn i gynnal gweithdy barddoni gyda myfyrwyr y chweched dosbarth. Roedd y gweithdy’n rhan o brosiect Canolfan Pontio i ddathlu bywyd a gwaith y Prifardd Emrys Roberts o Benrhyndeudraeth. Edrychwn ymlaen at weld cerdd y myfyrwyr yn cael ei thafllunio ar waliau’r Ganolfan ddiwedd Tachwedd. Diolch o galon i Mared o Pontio am gydlynu’r digwyddiad.

Kate

Brynhawn Gwener, Medi 30ain daeth y cwmni Mewn Cymeriad i’r ysgol i berfformio sioe newydd un ddynes o’r enw ‘Kate’. Cafodd myfyrwyr y chweched dosbarth gyfle i ddysgu am

fywyd a gwaith Kate Roberts drwy ei llygaid hi. Carys Gwilym oedd yr actores a bortreadodd Kate a bu’r sesiwn holi ac ateb gyda hi a’r gyfarwyddwraig Janet Aethwy yn hynod frwdfrydig ac yn agoriad llygad ynddo’i hun.

Dadorchuddio Cofeb Waldo Williams yn Llangernyw

Bu criw o fyfyrwyr sy’n astudio Cymraeg yn y 6ed yn rhan o’r dathliadau i gofio am y bardd Waldo Williams yn Llangernyw. Dadorchuddiwyd Cofeb yn Amgueddfa Syr Henry Jones gan nai Waldo Williams ac yn Ysgol Bro Cernyw cafwyd gwledd o ganu gan blant yr ysgol yn ogystal â’r bytholwyrdd Tecwyn Ifan. Uchafbwynt y noson oedd cael clywed darlith flynyddol Cymdeithas Waldo Williams a draddodwyd eleni gan y Prifardd Ieuan Wyn. Os hoffech gael mwy o fanylion y digwyddiad, yn ogystal â gweld lluniau o’r dathliadau, yna ewch i www.waldowilliams.com. Edrychwn ymlaen at y daith i Fynachlog-ddu y flwyddyn nesaf!

Pentir

Anwen Thomas, Min yr Afon,
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Myfyrio yn y Brifddinas

Dymuniadau gorau i Wesyn Dafydd sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhrifysgol Met Caerdydd ac ar ei flwyddyn gyntaf yn astudio Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol. Llongyfarchiadau iddo ar gael ei ddewis i chwarae pêl-fasged i’r coleg. Hefyd, dyfarnwyd grant Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol iddo’n ddiweddar.

Pencampwyr

Ar ôl ennill treialon Cymru ar gyfer mynd ymlaen i Bencampwriaeth Ras Fynydd Prydain ac Iwerddon, daeth Cedol Dafydd yn 9fed mewn ras yn Keswick (Ardal y Llynnoedd) y mis diwethaf. Ddechrau’r mis bu Cedol a’i chwaer Marteg yn cystadlu mewn gala yn Sheffield a chafod Cedol 2 fedal efydd a Marteg 1 aur a 2 efydd. Pob hwyl i’r ddau hefyd yn Lanzarote dros hanner tymor gyda Nofio Gwynedd lle byddan nhw’n cael hyfforddiant dwys yng Nghlwb La Santa.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Gynradd Llandygai

Croeso

Croeso mawr i ddisgyblion newydd Traed Bach. Mae’r criw wedi hen setlo ac yn mwynhau dod i’r ysgol.

Croeso i Ms Mared Roberts sydd wedi ymuno â staff dysgu yr ysgol ac hefyd i Miss Andrea Williams a Miss Angharad Lewis fel gweinyddesau dosbarth. Mae’r tair bellach wedi ymgartrefu yn yr ysgol ac yn gweithio fel rhan o’r tîm hapus a gweithgar .

Ymwelydd o fri

Cawsom y pleser o gwmni Mr Hywel Williams AS yn yr ysgol yn ddiweddar. Roedd pob disgybl wedi gwrandao ar ddisgyblion Dosbarth Tirion yn darllen eu manifestos yn gynharach yn yr wythnos ac yna cawsant gyfle i bleidleisio. Pen llanw’r broses oedd Mr Williams yn cyhoeddi pwy

gafodd eu hethol yn Brif Ddisgyblion yr ysgol eleni. Roedd ei bresenoldeb yn rhoi statws i’r digwyddiad. Rhoddodd sgwrs hynod o ddiddorol i’r disgyblion yn esbonio ei swydd ef yn Llundain bell.

Sustrans

Mae’r ysgol o dan arweiniad y Cyngor Ysgol Iach yn anelu am Y Wobr Efydd ac fel rhan o’r gweithgareddau cawsom ymweliad gan Gwen Tomos o Sustrans yn trafod y ffyrdd iach a glan o deithio i’r ysgol. Yn dilyn yr ymweliad cerddodd nifer o aelodau o staff a disgyblion yr ysgol o Dalybont i Landygai un bore.

Siarter Iaith ar Waith

Daeth ymwelwyr o bell ac agos i’r ysgol ddechrau’r tymor i weld arfer dda ac i wrando ar berfformiadau a chyflwyniadau

gan staff a disgyblion yr ysgol yn esbonio’r daith o ddechrau gweithio gyda’r Siarter Iaith hyd at heddiw. Daeth prifathrawon o Gaerfyrddin ac athrawon a disgyblion o Fflint a’r cyffiniau a braf

oedd cael rhannu syniadau a chreu cysylltiadau newydd a chyffrous. Diolch i ddisgyblion y ddwy adran am arddangos Gemau Buarth ar waith a hefyd i’r ysgol gyfan am ganu Anthem y Siarter mor afieithus.



CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)


Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Nyth Y Gân

Coeden Afalau
Mor hynod oedd y blodyn yn harddu'r
Holl erddi ar frigyn;
Ar ben haf mae erbyn hyn
Yn antur mawr i'r plentyn.

Y Newid
Mor hir fu'r dail eleni
Yn llawn mewn gwisgoedd gwyrdd
Gan ddawnsio'n hynod heini
A harddu nifer ffyrdd.

Mae sŵn rhyfeddol iddynt
Sy'n estyn tros y tir,
A braf yw gwrandao arnynt
Â'u hunsain am yn hir.

Sŵn arall hyfryd glywir
A ddaw o frigau'r coed,
Mae hwn yn lân a chywir
Nas gwybu neb ei oed.

Gwahodd y tymor newydd
Wnâi'r adar mân o'r pren,
A chynnes oedd y tywydd
Dan unlliw glas y nen.

Mae pobman nawr ar ddeffro
O fore hyd yr hwyr,
A nifer fawr yn troedio
Gan flino'n braf a llwyr.

Atgofion bendigedig
Fydd trysor y rhai hyn
Nad aiff yn anweledig
O gopa'r uchel fryn.

Bob blwyddyn mae atynfa
I'r mynydd yn bur gref
I droedio yn yr eira
Ymhell o sŵn y dref.

Mor llwm yw'r lle bryd hynny
A gwyn ei wedd i gyd;
Am fisoedd mae o'n cysgu
Ac mewn rhyw arall fyd.

Y Dylluan
Am hir y bu'n ymaros o'r golwg
Ond ar gil ymddangos;
Tywyllai'r nen, daethai'r nos
Â hi'n fwgan cyfagos.

Dafydd Morris

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Clwb Rhiwen

Medi 14. Fe aethom i ymweld â’r fferm lle y cynhyrchir iogwrt Llaeth y Llan. Roedd y tywydd yn fendigedig a’r daith yno’n ddiddorol dros ben. Mae’r fferm yn swatio ar gyrion pentref Llanefydd a cheir golygfeydd o Fryniau Clwyd ac arfordir Gogledd Cymru. Gareth a Falmai Roberts a gychwynnodd y fenter a bu’r ddau yn arbrofi llawer cyn lansio iogwrt Llaeth y Llan yn 1985. Maent yn defnyddio llefrith lleol ac yn ymfalchïo yn eu cynnyrch. Bellach, maent wedi buddsoddi arian mawr mewn adeilad newydd a pheiriannau soffistigedig a chawsom ein tywys o amgylch y safle gan Owain, un o’r meibion.

Yn ogystal, mae gardd arbennig yno a chawsom ei hanes gan Falmai. Diolch i Dilys am drefnu’r daith a’r lluniaeth inni.

Medi 28 Cawsom gyfarfod yn y Neuadd i drafod yr ymweliad â Llanefydd a hefyd i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor. Rydym yn cyfarfod bob yn ail bawn Mercher yn y Neuadd a buasem yn falch o groesawu aelodau newydd.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Bob Thomas, Caeau Gleision. Bu farw ei chwaer, Vera Williams yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Roedd hi’n byw yng Nghefn Gwyn, Trefor, Ynys Môn a chydymdeimlir â’i chymar Wil a’i chwaer Gwenda a’r teulu estynedig.

Priodas

Llongyfarchiadau i Rhian a Gethin Jones ar eu priodas yn ddiweddar. Mae Rhian yn ferch i John a Linda Pierce, Fferm Cae

Ysgubor Pentir. Fe fydd Rhian a Gethin yn ymgartrefu yn Llangefni a phob dymuniad da i’r ddau ohonoch.

Llawdriniaeth

Wedi hir aros cafodd Margaret Jones, Fferm Tanyweirglodd, ben-glin newydd yn Ysbyty Gwynedd. Pob dymuniad da am adferiad llwyr a buan.

Pencampwr

Yn ddiweddar bu cyfarfod yn Llandudno i wobrwyo Menter yr Ifanc Mewn Busnes. Daeth Siôn Thomas, Uwch Mynydd, Caeau Gleision yn fuddugol mewn dau ddosbarth er bod y gystadleuaeth yma yn agored i unrhyw un o dan 35 oed. Dim ond 21 ydy Siôn ac y mae wedi cyflawni camp arbennig. Mae’n hunan gyflogedig ac yn cynnal dosbarthiadau karate i blant a chrefftau cyffelyb i oedolion yn nalgylch Llandudno ac enwebwyd ef gan un o’r rhieni. Roedd y beirniaid yn ei ganmol am groesawu plant ag anableddau i’r dosbarthiadau. Y mae hefyd yn ymweld â rhai ysgolion yn Sir Conwy i sgwrsio am wrth fwlio. Da iawn ti Siôn.



Siôn Huw Thomas, enillydd Gwobr yr Ifanc mewn busnes.

Symud nôl

Y mae Kim Roberts a’i merch fach Ella wedi dod i fyw i Hafod Lon, braf iawn yw gweld rhai ifanc yn symud yn ôl i’r pentref. Rwy’n sicr y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

USweat

Cofiwch am y dosbarthiadau cadw’n heini a gynhelir yn y Neuadd bob nos Lun a nos Iau am hanner awr wedi saith yr hwyr.

Diolch

Hoffai Eirwen Williams, Stryd Uchaf, ddiolch i’w theulu a’i chyfeillion i gyd am eu cymwynasgarwch a’u dymuniadau da yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam yn ddiweddar.

Gŵyl Afon Ogwen

Er gwaethaf y glaw trwm ar y dydd Sadwrn ‘roedd presenoldeb lleol dda i lawer o weithgareddau’r ŵyl.

Yng Nghapel Jerwsalem cynhaliwyd nifer o weithgareddau sef :- Sioe Celf a Ffotograffiaeth, Lluniau mawr cyhoeddus o Fethesda, Côr Bangor a dangosiadau o’r ffilm ‘Atgofion Ogwen’.

Cerddoriaeth glasurol gan Gôr Oriana yn y Douglas Arms.

Yn Llyfrgell Bethesda cynhaliwyd sesiwn boblogaidd o ysgrifau a darlenniadau .

Cawsom gerddoriaeth fyw a geiriau llafar yng Nghaffi Fitzpatrick.

Cynhaliwyd penwythnos agored yn Rheilffordd Chwarel y Penrhyn yn y Felin Fawr.

Cawsom noson ddifyr yn Neuadd Ogwen o gerddoriaeth byw gan y band Rabo de Toro a grwpiau eraill.

Hefyd, yn Neuadd Ogwen cynhaliwyd ‘Paned a Sgwrs Atgofion Ogwen’ lle cyfrannodd nifer o bobol leol eu hatgofion o’r ardal a’u gosod ar fap mawr o Fethesda.

‘Roedd Parc Meurig yn llawn gweithgareddau creadigol a stondinau fel stondin y wiwer goch, taith gerdded a darganfod yn y Parc, cerfluniau, dawns, cerddoriaeth a rhedegfa marblis.

Yn anffodus, eto eleni, cafodd nifer o’r cerfluniau eu dinistrio yn yr hwyrnos. Tybed pwy a paham?

Er hynny, ‘roedd yr ŵyl yn llwyddiannus, a diolch i bawb am eich cyfraniad a’ch cefnogaeth.



Aelodau Clwb Rhiwen a ymwelodd â Llaeth y Llan yn Llanefydd yn ddiweddar.

Ysgol Pen-y-bryn

Croeso mawr i 24 o ddisgyblion newydd i flwyddyn 3 ac i Miss Cadi Jones a Miss Joanna Davies fel cymorthyddion newydd yn yr ysgol.

Mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn mwynhau dysgu sgiliau rygbi efo Carwyn bob prynhawn Gwener. Maent yn cael cyfle i ymarfer sgiliau unigol wrth ddal a thaflu pêl yn ogystal â chwarae gemau er mwyn dysgu sut i gyd-weitho fel tîm.

Dosbarth Carnedd
Ar hyn o bryd, gwlychu yw hanes plant dosbarth Carnedd bob bore Llun! Am wythnosau cynta’r tymor, eu tro nhw yw cael gwersi nofio yn y Pwll ym Mangor. Mae’r gwersi yma’n **hynod bwysig** oherwydd bod nofio’n ymarfer da i bob rhan o’r corff, yn hwyl i’w wneud ac, yn bennaf oll, fe all **achub eu bywydau!**

Hefyd, mae taith gerdded wedi ei

threfnu pan fydd y plant yn cael cyfle i gerdded ar hyd y rhan lleol o Lwybr Llechi Eryri dan arweiniad Anita Daimond, Cydlynnydd Prosiect Ysgolion. Cawn gyfle i roi adroddiad am y diwrnod yn rhifyn nesa’r Llais gobeithio.

Titanic
Ar Fedi 21ain aeth 77 o blant blwyddyn 5 a 6 i Lerpwl i’r Amgueddfa Forwrol er mwyn dysgu am hanes y Titanic Anhygoel oedd gweld y model anferth o’r llong a chael darllen am hanes rhai o’r teithwyr oedd arni. Buont yn gwylio fideo a oedd yn dangos sut ymatebodd y newyddion i stori’r Titanic cyn ac ar ôl y drychineb. Cafodd rhai o blant wisgo i fyny fel pobl o’r cyfnod, er enghraifft, y capten llong, y morynion a phobl o’r dosbarth cyntaf. Diwrnod penigamp yn wir!



Plant Ysgol Penybryn y tu allan i’r Amgueddfa Forwrol yn Lerpwl

Ysgol Abercaseg

Llun
Mae plant y dosbarth Meithrin wedi setlo bellach ac mae’n braf eu gweld yn mwynhau eu gweithgareddau. Gobeithio fod cyn ddisgyblion Blwyddyn 2 yr ysgol yr un mor hapus ym Mlwyddyn 3 Pen y Bryn.

Ffarwelio
Hoffai pawb ddiolch a dymuno’n dda i Susan Evans wedi cyfnod o bron i ddeng mlynedd yn glanhau’r ysgol. Roedd y dosbarthiadau bob amser yn sgleinio, a bydd pawb yn gweld eisiau ei chwmmi cyfeillgar.

Ymweld â Pharc Meurig
Aeth dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 am dro i Barc Meurig. Tra yno bu’r plant yn edrych, gwrandao a phrofi bywyd gwyllt y goedwig.

Dysgu â Stephen Jones
Treuliodd Stephen Jones o gwmni Anelu ddiwrnod yn yr ysgol yn dysgu plant blynyddoedd 1 a 2 am waith map. Aed am dro i fyny Lôn Pant ac wrth fwynhau’r olygfa o groesffordd Gerlan dysgwyd am wahanol nodweddion yr ardal.

Ysgol Bodfeurig

Cestyll!
Thema dosbarth Tryfan ar hyn o bryd yw Cestyll a Dreigiau. Fel rhan bwysig o’r thema cawsom fynd ar ymweliad i Gestyll Caernarfon a Dolbadarn. Cafwyd amser gwych yn dysgu am sut adeiladwyd y cestyll a sut roeddent yn amddiffyn ei hunain. Ar ôl yr ymweliad aethom ati i greu ein cestyll ein hunain. Pa un hoffech chi fyw ynddo..?



Pitran Patran
Rydym ni wedi bod ar daith gerdded i edrych ar nodweddion dŵr ym Mynydd Llandygai. Cerddasom ar hyd y llwybr bach i fyny’r mynydd. Roedd yn fore niwlog iawn ac roedd yn bwrw glaw ychydig. Gwelsom raeadr ac afon yn sisial. Gwelsom Ffynnon Bodfeurig ac roedd hi’n hudolus. Gwelsom Ffynnon Angel a nant yn llifo’n araf. Cerddasom dros bont carreg a phren. Roedd yn llithrig iawn. Gwelsom lawer o goed gydag aeron coch arnyn nhw a chlywsom adar yn canu’n swynol. Roedd yn lot fawr o hwyl. Cerddasom yn ôl i’r ysgol gyda’n ffrindiau.

Gan Eira a Llyr

Sgiliau Pêl
Daeth Carwyn o Blas Ffrancon i’r ysgol i hyfforddi rygbi i blant blynyddoedd 1 a 2. Dangosodd iddynt sut i drin y bêl gan bwysleisio pa mor bwysig y cyd-chwarae.

Cymreictod
Croesawyd athrawon o Ysgol Penboy yn ne Cymru i ddysgu ynglŷn â sut y mae Ysgol Abercaseg yn sicrhau fod y Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol. Roedd yr ymwelwyr wedi gwirioni â sgwrsio naturiol y plant.


Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Darn mawr o'r plât sydd wedi torri (4)
- 4 Rhan bach iawn o'r gwyneb a welir os yw hwn ynghanol 19 Ar Draws (5)
- 9 Math o ysgol; y cyntaf efallai (7)
- 10 Cwyno a chyhuddo (5)
- 11 Min ar y chwa o wynt sy'n chwythu'n groes (3)
- 12 Anwesais a rhoddais fwytha (9)
- 13 Darn chwarae gêm smotiog (6)
- 15 Gwasgu'n frwnt efo bys a bawd (6)
- 18 Dim cytuno (9)
- 19 Llaidd (3)
- 20 Y cweryl (1,4)
- 21 Byddai canu geiriau 3 I Lawr yn addas iawn mewn un o'r rhain (7)
- 23 A roddwn rywsut? Dyma fyddaf wedyn (5)
- 24 Canlyniad llafur caled (4)

I LAWR

- 2 Ach-a-fi ! Dwi'n wael (5)
- 3 Y math o ganiedydd oedd Williams Pantycelyn (3)
- 4 Er yn malu, mae'n rhoi mwy o eglurhad (6)
- 5 "Mi glywaf dyner lais yn galw arnaf fi", y geiriau a'r dôn (9)
- 6 Cymuned ger Merthyr Tudful lle mae côr meibion enwog (7)
- 7 Arwydd cadarnhaol â'r pen (6)
- 8 Mae un Wyth ac un yr Iâ (4)
- 12 Mwy nag un ffordd i fewn ac allan (9)
- 14 Hwrrdd (7)
- 16 Rhif dy ddyddiau (6)
- 17 Ar lafar, cerbyd ochr fel ar foto beic erstalwm (6)
- 18 Ysfa a dyhead (4)
- 19 Mae mwy yn galw'r sir yn Gwent (5)
- 22 Yn draddodiadol, creaduriaid sy'n hoff o
- 19 Ar Draws (3)



ATEBION CROESAIR MEDI 2016

AR DRAWS 1 Sgio, 4 Gwaed, 9 Esgid, 10 Allforio, 11 Ymadael, 12 Ansad, 13 Gosod, 15 Swper, 18 Esgus, 20 Weithiau, 23 Ymaflyd, 24 Cododd, 25 Gesio, 26 Myrdd

I LAWR 2 Goglais, 3 Oedfa, 4 Gwaelu, 5 Arfbais, 6 Dyrys, 7 Llety, 8 Border, 13 Gweryd, 14 Destlus, 16 Prinder, 17 Llwyddlo, 19 Gwasg, 21 Incwm, 22 Urddo

Ymddangosodd nifer o lithriadau yn anffodus yn rhai o atebion croesair Medi. Cafwyd 'ergyd' yn lle 'esgid', 'adforio' ac 'arforio' yn lle 'allforio', 'miri' yn lle 'myrdd', ac 'amsad' yn hytrach nag 'ansad'.

Derbyniwyd atebion cywir oddi wrth y canlynol : Gwyneth Jones, Glasinfryn; Donna Coleby, Penwortham; Ann Carran, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Gill King, Mynydd Llandygai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Gareth William Jones, Bow Street; Dilys Parry, Margaret Jones, Rhiwas; John H. Evans, Llanberis; Ellen Whitehouse, Birmingham; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Adrian Poulton, Pentir; Jean Hughes, Talybont; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, Llanllechid.

Llongyfarchiadau am ddod yn gyntaf allan o'r het y tro yma am y wobr i Myra a Gwilym Evans, Heddfan, Niwbwrch, Ynys Môn, LL61 6TN.

Atebion erbyn 3 Tachwedd, 2016 i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Atebion erbyn 24 Awst, 2016 i 'Croesair Gorffennaf/Awst'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

.....

Chwaraeon



Tîm Peldroed Bethesda. Pa flwyddyn? Oes na rhywun yn cofio'r flwyddyn?
(Diolch i Mrs. Ann Roberts, Rhes Ogwen, Bethesda am anfon y llun i'r Llais)

Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygái

Canlyniadau
Medi 3ydd
Mynydd Ll. 3 - 2 Llanberis
Goliau wedi eu sgorio gan Jamie Whitmore ac Alwyn Roberts (2)
Medi 10fed (Gêm Gwpan)
Cyff. Llandudno 2 - 3 Mynydd Ll.
Goliau gan Alwyn Roberts, Didi Jones a Jamie Whitmore.

Medi 17 (Gêm Gynghrair)
Prestatyn Sports 4 - 1 Mynydd Ll.
Gôl gan Ben Parker
Hydref 1af (Gêm Gwpan)
Glantraeth 3 - 5 Mynydd Ll.
Goliau gan Liam Whilingham (2), Matthew Smith (2) a Jamie Whitmore.

Ennill Cystadleuaeth Garleg Moriarty Thomas



Ennillydd Cystadleuaeth Garleg Moriarty-Thomas 2016 yn y Douglas Arms ym mis Awst oedd Gwilym Owen - llongyfarchiadau Gwili! Dyma fo yn cyflwyno'r elw i'r elusennau lleol dewiswyd ganddo, sef £210 i Eifion Jones yn cynrychioli Ambiwlans Awyr Cymru, a £100 i Neil a Maggie Adam yn cynrychioli Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Diolch i bawb a gymerodd ran!

L. Sturrs

a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Ymgymmerwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gweli bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm